

MYNEGAI

	Tudalen
Rhagymadrodd Eglurhaol	2 – 8
Datganiad Cyfrifoldebau	9
Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau	10
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	11
Y Fantolen	12
Datganiad Llif Arian	13
Nodiadau i'r Cyfrifon	14 – 73
Cyfrif Refeniw Tai a'r Nodiadau	74 – 78
Y Gronfa Degwm	79
Cronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan	80
Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd a'r Nodiadau	81 – 93
Adroddiad yr Archwilwyr – Cyngor Gwynedd	94 – 95
Atodiad A - Dadansoddiad Cyfrif Incwm a Gwariant	96 – 97
Atodiad B - Datganiad Llywodraethu Blynyddol	98 – 110

RHAGYMDRODD EGLURHAOL

Rhagarweiniad

Ymddengys cyfrifon Cyngor Gwynedd am 2010/11 ar dudalennau 10 i 93.

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:-

- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** - Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan yr Awdurdod, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae sefyllfa trethiant yn cael ei adlewyrchu yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.
- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - Hwn yw prif gyfrif refeniw y Cyngor. Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisiau cyfrifeg cyffredinol dderbyniol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae Awdurdodau yn codi trethiant i gyflenwi gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Dengys y sefyllfa trethiant yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.
- **Y Fantolen** – sydd yn gosod allan sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2011.
- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyngor yn ystod 2010/11 at ddibenion refeniw a chyfalaf.
- **Cyfrif Refeniw Tai** - Mae'r cyfrif yma'n manylu ar yr incwm a gwariant ar wasanaeth tai'r Cyngor.
- **Cyfrifon Cronfa'r Degwm a Chronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan.**
- **Cyfrifon a Mantolen Cronfa Bensiwn Gwynedd.**

Cefnogir y cyfrifon hyn gan y Rhagymadrodd yma, y Polisiâu Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

GWARIANT REFENIW YN 2010/11

- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 11, fod gwariant refeniw gros y Cyngor ar lefel 'Cost Gwasanaethau' yn £750m yn ystod 2010/11, gyda'r sefyllfa net yn £408m. Os anwybyddir cost eithriadol y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2010/11, mae'n gadael gwariant gros o £283m a gwariant net o £158m.

TABL 1 - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)

	Cyllideb £'000	Gwir £'000	Gwahaniaeth £'000
Gwariant Net ar Weithgareddau	228,581	228,056	-525
Swm Adrannol i'w gario ymlaen ar ddiwedd blwyddyn	0	563	563
	228,581	228,619	38
Ariannwyd gan -			
Incwm y Dreth Cyngor	-58,662	-58,700	-38
Cyfran o'r Trethi Annomestig			
Cenedlaethol	-33,532	-33,532	0
Grantiau Llywodraeth Cyffredinol	-136,387	-136,387	0
	0	0	0

TABL 2 – Symudiad Trawsddodiad rhwng y gyllideb a'r gwir sefyllfa yn y fformat 'Crynodeb o'r Gymhariaeth' (Tabl 1) i'r fformat Incwm a Gwariant sydd yn adlewyrchu y Strwythur Rheolaethol Adrannol.

Adran	Tabl Cyllideb a Gwir Sefyllfa £'000	Symudiad Trawsddodiad £'000	Datganiad Incwm a Gwariant £'000
Adnoddau Dynol	133	-2	131
Cyllid	1,281	-24	1,257
Democratiaeth a Chyfreithiol	674	0	674
Gofal Cwsmer	2,982	20	3,002
Strategol a Gwella	698	-158	540
Addysg	89,151	-1,014	88,137
Datblygu'r Economi a Chymuned	7,674	-151	7,523
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	28,496	-1,163	27,333
Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)	12,120	-53	12,067
Ymgynghoriaeth Gwynedd	1,019	208	1,227
Asiantaeth Cefnfydd Gogledd Cymru	1	400	401
Darparu a Hamdden	5,285	-137	5,148
Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol	60,540	-517	60,023
Tim Arweinyddiaeth	0	0	0
Cyfrif Refeniw Tai	250,015	0	250,015
Corfforaethol	-49,935	817	-49,118
Cronfeydd	-678	0	-678
Yswiriant	-3	0	-3
Cost Gwasanaethau	409,453	-1,774	407,679
Eraill (Yn cynnwys addasiad Canolog a Chorfforaethol)	-180,834	1,774	-179,060
Cyfanswm	228,619	0	228,619

- Gweler dadansoddiad fformat safonol llawn Incwm a Gwariant ar dudalen 11.
- Gweler dadansoddiad llawn o fformat rhannol yn Nodyn 28, tudalen 55.
- Gweler dadansoddiad ar sail Côt Ymarfer Cyfrifo ar gyfer Gwerth Gorau yn Atodiad A.

- **Costau heb eu Dosrannu**

Mae'r pennawd Costau heb eu dosrannu o fewn y Cost Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wedi ei rannu i ddangos yr Eitem Eithriadol. Mae'r Eitem Eithriadol yn cyfeirio at yr addasiad pensiwn sydd yn deillio o'r defnydd o'r mynegai pris defnyddiwr yn hytrach na'r mynegai pris manwerthu i gyfrifo cynnydd pensiynau sector gyhoeddus.

- **Cyfrif Refeniw Tai**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi penderfynu y dylai holl dai Cyngor yng Nghymru gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) erbyn 2012. Nid oedd digon o adnoddau gan y Cyngor i gyflawni'r SATC o fewn yr amserlen yma ac mae tenantiaid tai Cyngor Gwynedd wedi pleidleisio i drosglwyddo'r stoc tai i gyd i landlord cymdeithasol cofrestredig (LCC), sydd wedi'i ffurfio at y pwrpas hwn. Trosglwyddodd y stoc tai i Gartrefi Cymunedol Gwynedd ar 12 Ebrill 2010. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn Nodyn 1 yn y rhan Cyfrif Refeniw Tai.

- **Newidiadau mewn Polisiau Cyfrifeg**

Y Datganiad o'r Cyfrifon 2010/11 yw'r cyntaf i gael ei baratoi ar sail SAARh (Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol). O ganlyniad i fabwysiadu'r Côt sy'n seiliedig ar SAARh, mae'n ofynnol ail-ddatgan nifer o falansau a thrafodion, sy'n golygu bod rhai ffigyrau a gyflwynir yn y datganiadau ariannol yn wahanol i'r ffigyrau cymharol a adroddwyd yn y Datganiad o'r Cyfrifon 2009/10. Y newidiadau mwyaf arwyddocaol yw fel a ganlyn:-

(i) Cyfadfer Absenoldebau Cronedig Tymor Byr - cyfeirir hwn at pan mae gweithwyr, fel rhan o'i cytundeb cyflogaeth yn cronni hawl absenoldeb fel maent yn darparu gwasanaeth i'r cyngor. Y budd mwya' arwyddocaol dan orchudd y pennawd hwn ydi tâl gwyliau.

Mae gweithwyr yn cronni eu hawl i wyliau gyda thal fel maent yn gweithio. Yn unol â'r Côt, mae'r gost o ddarparu gwyliau a buddion eraill angen cael ei adnabod pan mae gweithwyr yn rendro gwasanaeth a fydd yn cynyddu ei hawliau i ddigolledu absenoldebau yn y dyfodol. O ganlyniad, mae'n ofynnol i'r cyngor gronni unrhyw wyliau blynyddol enilledig ond heb ei gymeryd hyd at 31 Mawrth pob blwyddyn. O dan y driniaeth cyfrifeg cynt, doedd dim angen cronniad o'r fath.

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi rheoliadau sy'n golygu bod llywodraeth leol angen cronfa tal gwyliau a buddion tebyg pan maent yn cael ei defnyddio, nid pa bryd mae'n ennill y budd. Mae'r symiau yn cael ei drosglwyddo i'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig tan mae'r buddion yn cael ei defnyddio.

Mae'r newid a wnaed i ddatganiad ariannol 2009/10 wedi eu hadlewyrchu yng ngholofn "Buddion Gweithwyr" y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

(ii) Prydlesau - Yn unol â'r Côt, mae prydlesau eiddo yn cael eu cyfrifo fel prydles arwahan o dir ac adeiladau. Yn flaenorol, roedd pob prydles eiddo yn cael ei gyfrifo fel prydles unigol. Mae newid mewn triniaeth cyfrifeg mewn rhai achosion wedi deillio bod yr elfen tir neu adeiladau o'r brydles, yn cael ei gyfrifo fel prydles weithredol ble roedd cynt yn cael ei drin fel prydles gyllidol; neu brydles gyllidol ble roeddynt cynt yn brydles weithredol.

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi rheoliadau a chyfarwyddyd statudol ar gyfer cyfrifo prydlesau. O dan y rheoliadau hyn, ni fydd gwariant blynyddol yn y Gronfa Gyffredinol (ble mai'r Cyngor yw'r prydlesai) yn newid. Ble mai'r Cyngor yn brydleswr, mae'r rheoliadau yn caniatáu'r Cyngor i drin yr incwm gan y brydles gyffredol yn yr un ffordd a pan nad oedd y Côt yn bodoli.

Mae'r newidiadau a wnaed i ddatganiad ariannol 2009/10 wedi eu hadlewyrchu yng ngholofn "Prydlesau" y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Fantolen.

(iii) Grantiau Llywodraeth a Chyfraniadau - Yn unol â'r Côt, mae grantiau a chyfraniadau i gynlluniau cyfalaf yn cael eu hadnabod fel incwm pan mae'r swm yn dderbyniadwy. Yn flaenorol, roedd grantiau yn cael eu dal yn y Cyfrif Grantiau Gohiriedig ac yn cael eu hadnabod dros fywyd yr ased roeddynt yn ariannu.

O ganlyniad i fabwysiadu'r polisi cyfrifeg sy'n ofynnol gan y Côt, mae'r cyfrifon wedi cael eu newid fel a ganlyn:

- Mae balans y Cyfrif Grantiau Llywodraeth Ohiriedig 31 Mawrth 2009 wedi ei drosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Fantolen agoriadol 1 Ebrill 2009.

- Roedd cyfraniadau o grantiau llywodraeth gohiriedig wedi eu hadnabod cynt fel incwm yn 2009/10; mae'r rhain wedi eu tynnu o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y ffigyrau cymharol.
- Derbyniwyd grant yn 2009/10 na ddefnyddiwyd. Yn flaenorol, cafwyd dim incwm ei adnabod af gyfer y grant hwn, roedd yn cael ei ddangos yn y Cyfrif Grantiau heb eu Cymhwyso o fewn yr adran Credydwyd ar y Fantolen. Yn dilyn y newid mewn polisi cyfrifeg, mae'r grant wedi ei adnabod yn llawn, ac wedi ei drosglwyddo i'r Cyfrif Grantiau heb eu Cymhwyso o fewn yr adran Reserfau ar y Fantolen.

Dengys y newidiadau a wnaed i ddatganiad ariannol 2009/10 yn y Fantolen.

(iv) Buddsoddiadau / Arian a Chywerthydd Arian – mae buddsoddiadau'r Cyngor sydd yn gallu cael eu newid i arian yn syth ar ddyddiad y fantolen wedi eu hail gategoreiddio fel Cywerthydd Arian. Nid yw'r newid yma yn y polisi cyfrifeg wedi cael dim effaith ar asedau net y Cyngor.

- **Effaith yr Hinsawdd Economaidd Cyfredol**

Yn ystod 2008/09 datblygwyd problemau digynsail yn y sefyllfa ariannol byd-eang a disgynodd cyfraddau llog ym Mhrydain i isafswm digynsail. Parhaodd drwy 2009/10 a 2010/11. Oherwydd y sefyllfa hon, mae'r Awdurdod wedi adolygu ei Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a meysydd eraill o risgiau ariannol yn gyson. Gweler manylion pellach o'r gweithrediadau yma yn Nodyn 44 o'r Nodiadau i'r Cyfrifon.

GWARIANT CYFALAF YN 2010/11

Yn 2010/11 gwariodd y Cyngor £40.1m ar gynlluniau cyfalaf. Dengys y tabl canlynol fanylion y gwariant yma ynghyd â sut y'i gyllidwyd.

CRYNODEB O WARIANT CYFALAF A'I ARIANNU		
2009/10		2010/11
£'000		£'000
216	Adnoddau Dynol	95
6,443	Addysg	7,993
0	Asiantaeth Cefnffyrdd	74
74	Cyllid	47
2,761	Darparu a Hamdden	1,507
1,445	Economi a Chymuned	2,232
35	Democratiaeth a Chyfreithiol	30
3,460	Gofal Cwsmer	5,974
4,963	Tai a Gwasnaethau Cymdeithasol	2,912
5,673	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	3,806
6,830	Rheoleiddio	9,024
464	Strategol a Gwella	673
7,196	Cyfrif Refeniw Tai	320
2,264	Ymgynghoriaeth Gwynedd	5,401
17	Corfforaethol	1
41,841		40,089
	ARIANNWYD GAN -	
9,066	Benthycia	8,625
24,483	Grantiau a Chyfraniadau	28,963
1,189	Derbyniadau Cyfalaf	2,723
7,103	Refeniw a Chronfeydd Eraill	(222)
41,841		40,089

- Cynhwysir Gwariant Refeniw wedi'w Ariannu o Gyfalaf drwy Statud o £5,076,216 yn y tabl uchod. Ad-dalwyd y gwariant yma i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn. Cyfanswm gwariant ar Asedau Anghyfredol oedd £35,029,632 fel a ddangosir yn Nodyn 14 ar dudalennau 42 i 44.
- Roedd Dyled Benthyciadau'r Cyngor ar 31 Mawrth 2011 yn £113.9m – gostyngiad o £18.2m (o £132.1m) yn ystod y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn fe ad-dalwyd £14.1m o ddyled allanol yn sgil trosglwyddo'r stoc tai i Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn Ebrill 2010. Gwnaethpwyd addaliadau pellach o £4.8m yn unol â telerau'r benthyciadau unigol. Nid oedd yn angenrheidiol i gymryd unrhyw fenthyciad newydd gan bod adnoddau digonol ar gael i gyllido'r gwariant cyfalaf.
- Hefyd yn sgil trosglwyddo'r stoc tai i Cartrefi Cymunedol Gwynedd, mae yn addasiad cytundebol fydd yn galluogi Cartrefi Cymunedol Gwynedd i ad-ennill Treth ar Werth ar y gwariant cyfalaf sydd ei angen i ddod a'r tai i safon SATC. Gwerth y gwaith ailwampio yma yw £217,373,650 (eithrio TAW). Mae yna addasiad cyfatebol pellach i adlewyrchu'r cyfraniad amcanol 'dderbynwyd' gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd. Nid yw'r ddau eitem yma wedi eu cofnodi yn y tabl gwir wariant cyfalaf uchod. Gweler hefyd Nodyn 1 i'r Cyfrif Refeniw Tai am fwy o fanylion.

DARPARIAETHAU AC ARIAN WRTH GEFN

Yn ychwanegol at y Balans Cyffredinol o £8.2m roedd gan y Cyngor ddarpariaethau (fel a ddiffinir) o £3.4m, reserfau penodol eraill o £50.7m a balansau ysgolion o £4.5m, sef cyfanswm o £66.8m. Ceir manylion yn y Fantolen, Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau a Nodyn 9, 22, 23 a 24.

CRONFA BENSIWN GWYNEDD

Dengys cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd (tudalennau 81 i 93) gynnydd yn ystod y flwyddyn o £94.4m yn asedau net y Gronfa, ar werth y farchnad, i £1,023.8m. Roedd gwerth llyfr yr Asedau net ar 31 Mawrth 2011 yn £828.2m (2010: £785.4m).

POLISIAU CYFRIFO

Mae'r egwyddorion cyfrifo a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn cydymffurfio â holl ymarferion cyfrifwaith cymeradwy perthnasol ac maent wedi'u egluro yn llawn yn y Polisiâu Cyfrifo yn Nodyn 1 o'r Cyfrifon ar dudalen 14.

GWYBODAETH BELLACH

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

William E Jones
Uwch Reolwr Cyllid
01286 679406

neu

Ffion Madog Evans
Rheolwr Cyllid - Adnoddau a Chorfforaethol
01286 679133

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir yr hawl arolygu yma yn y wasg leol ar yr adeg briodol.

CYNGOR GWYNEDD

DATGANIAD O'R CYFRIFON

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

CYFRIFOLDEB YR AWDURDOD

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad ei faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r swyddog hwnnw. Cyfrifoldeb yr awdurdod hefyd yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

29 Medi 2011

Cadeirydd Pwyllgor Archwilio

CYFRIFOLDEB PENNAETH CYLLID CYNGOR GWYNEDD

Y Pennaeth Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyngor yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r datganiad o'r cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisiau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac wedi cydymffurfio â'r Côd Ymarfer.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol ac amserol ac fe gymerwyd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2011 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

20 Medi 2011

Dafydd L. Edwards B.A., C.P.F.A., I.R.R.V.
Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan yr Awdurdod, wedi eu dadansoddi'n 'reserfau defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysiedig i ariannu gwariant neu leihau trethiant lleol) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Gwarged neu (Ddiffyg) ar Ddarparu Gwasanaethau yn dangos y gwir gost economaidd o ddarparu gwasanaethau'r awdurdod, gyda manylion pellach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol sy'n ofynnol eu codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Refeniw Tai i bwrpas gosod treth y cyngor a rhenti. Mae'r Cynnydd/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd yn dangos balans statudol y Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Refeniw Tai cyn unrhyw drosglwyddiadau dewisol i neu o reserfau a glustnodwyd a gyflawnir gan y Cyngor.

Nodyn	Balans Cronfa Gyffredinol	Reserfau Cronfa Gyffredinol a Glustnodwyd	Cyfanswm Balansau Ysgolion	Cyfrif Refeniw Tai	Reserf Derbyniadau Cyfalaf	Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio	Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy	Reserfau na ellir eu defnyddio	Cyfanswm Reserfau'r Awdurdod
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans 31 Mawrth 2009	(9,234)	(38,277)	(3,710)	(1,932)	(6,288)	(490)	(59,931)	(244,615)	(304,546)
<u>Symudiad mewn reserfau yn 2009/10</u>									
(Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau	(8,630)	0	0	10,719	0	0	2,089	0	2,089
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	0	0	0	0	0	0	0	138,988	138,988
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(8,630)	0	0	10,719	0	0	2,089	138,988	141,077
Addasiadau rhwng sail cyfrifeg a sail ariannu yn unol â rheoliadau	8 7,181	0	0	(10,751)	(322)	293	(3,599)	3,599	0
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd	(1,449)	0	0	(32)	(322)	293	(1,510)	142,587	141,077
Trosglwyddiadau (i)/o Reserfau a Glustnodwyd	9 2,426	(2,326)	(97)	(3)	0	0	0	0	0
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2009/10	977	(2,326)	(97)	(35)	(322)	293	(1,510)	142,587	141,077
Balans 31 Mawrth 2010 a ddygwyd ymlaen	(8,257)	(40,603)	(3,807)	(1,967)	(6,610)	(197)	(61,441)	(102,028)	(163,469)
<u>Symudiad mewn reserfau yn 2010/11</u>									
(Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau	(67,302)	0	0	235,772	0	0	168,470	0	168,470
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	0	0	0	0	0	0	0	(188,181)	(188,181)
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(67,302)	0	0	235,772	0	0	168,470	(188,181)	(19,711)
Addasiadau rhwng sail cyfrifeg a sail ariannu yn unol â rheoliadau	8 56,490	0	0	(235,522)	1,412	(1,020)	(178,640)	178,640	0
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd	(10,812)	0	0	250	1,412	(1,020)	(10,170)	(9,541)	(19,711)
Trosglwyddiadau (i)/o Reserfau a Glustnodwyd	9 10,875	(10,186)	(679)	(10)	0	0	0	0	0
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2010/11	63	(10,186)	(679)	240	1,412	(1,020)	(10,170)	(9,541)	(19,711)
Balans 31 Mawrth 2011 a ddygwyd ymlaen	(8,194)	(50,789)	(4,486)	(1,727)	(5,198)	(1,217)	(71,611)	(111,569)	(183,180)

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR – 2010-11

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisiau cyfrifeg cyffredinol dderbyniol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae Awdurdodau yn codi trethiant i gyflenwi gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Dengys y sefyllfa trethiant yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

2009-10			2010-11				
Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net		Nodyn	Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000	£'000
17,928	(6,880)	11,048	Diwylliant a Gwasanaethau Cysylltiedig		19,535	(7,190)	12,345
24,950	(8,109)	16,841	Gwasanaethau Amgylcheddol		29,627	(12,088)	17,539
8,701	(3,933)	4,768	Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu		10,847	(5,154)	5,693
109,419	(19,077)	90,342	Gwasanaethau Plant ac Addysg - Addysg		107,909	(18,254)	89,655
16,318	(2,837)	13,481	Gwasanaethau Plant ac Addysg - Gofal Cymdeithasol Plant		18,005	(3,386)	14,619
24,378	(7,662)	16,716	Priffyrdd, Ffyrdd a Thrafnidiaeth		31,951	(13,223)	18,728
41,072	(34,261)	6,811	Gwasanaethau Tai (Cronfa Gyffredinol)		38,584	(34,348)	4,236
56,896	(16,224)	40,672	Gofal Cymdeithasol Oedolion		56,507	(15,393)	41,114
10,780	(9,392)	1,388	Gwasanaethau Canolog i'r Cyhoedd		11,745	(10,234)	1,511
9,713	(5,078)	4,635	Costau Corfforaethol a Democraidd Craidd		7,701	(2,826)	4,875
168	0	168	Costau Heb eu Dosrannu		9	(1,903)	(1,894)
0	0	0	Costau Heb eu Dosrannu – Eitem Eithriadol*		(50,757)	0	(50,757)
30,522	(20,502)	10,020	Cyfrif Refeniw Tai		1,210	(548)	662
0	0	0	Cyfrif Refeniw Tai - Costau Eithriadol**		466,727	(217,374)	249,353
350,845	(133,955)	216,890	Cost Gwasanaethau		749,600	(341,921)	407,679
17,640	(287)	17,353	Gwariant Gweithredol Arall	10	18,669	(21)	18,648
30,306	(12,915)	17,391	Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	11	27,506	(28,090)	(584)
	(249,545)	(249,545)	Treth ac Incwm Grant Amhenodol	12		(257,273)	(257,273)
398,791	(396,702)	2,089	(Gweddill)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau		795,775	(627,305)	168,470
		(10,369)	(Gweddill)/Diffyg yn deillio o Ailbrisiu Asedau Sefydlog	24			(45,084)
		(2)	(Gweddill)/Diffyg yn deillio o Ailbrisiu Asedau Ariannol sydd ar gael i'w gwerthu				0
		149,359	(Enillion)/Colledion Actiwaraidd ar Asedau ac Ymrwymadau Pensiwn	41			(143,097)
		138,988	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall				(188,181)
		141,077	Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				(19,711)

* Hwn yw'r addasiad pensiwn cysylltiedig â'r defnydd o'r mynegai pris defnyddiwr yn hytrach na'r mynegai pris manwerthu fel sail newydd ar gyfer cynnydd pensiynau sector cyhoeddus.

** Trosglwyddwyd Stoc Tai Cyngor Gwynedd i Gartrefi Cymunedol Gwynedd ar 12 Ebrill 2010.

Y FANTOLEN – 31 MAWRTH 2011

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwymïadau'r Awdurdod ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai ymrwymïadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddelir gan yr awdurdod. Adroddir ar y reserfau mewn dau gategori. Y categori cyntaf o reserfau yw reserfau defnyddiadwy, h.y. y reserfau hynny y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddoeth o reserfau ac unrhyw gyfyngiad statudol o'u defnydd (er enghraifft, y Reserf Derbyniadau Cyfalaf a ddefnyddir i gyllido gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled yn unig). Yr ail gategori o reserfau yw'r rhai hynny na all yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori yma o reserfau yn cynnwys reserfau gyda elw a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft, y Reserf Ail-ddatgan), ble nad yw'r symiau ar gael i'w ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau dim ond pan werthir yr asedau yn unig; a reserfau gyda gwahaniaethau amseriad fel a ddengys ar linell 'Addasiadau rhwng sail cyfrifeg a sail ariannu yn unol â rheoliadau' o'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

1 Ebrill 2009 £'000	31 Mawrth 2010 £'000		Nodyn	31 Mawrth 2011 £'000
538,175	548,020	Eiddo, Offer a Chyfarpar	14	353,391
1,031	1,031	Eiddo Buddsoddi	14,15	298
120	109	Asedau Gweddilliol	14	107
3,089	1,156	Buddsoddiadau Tymor Hir	16	585
1,780	2,248	Dyledwyr Tymor Hir	16	2,808
544,195	552,564	Asedau Tymor Hir		357,189
71,647	54,024	Buddsoddiadau Tymor Byr	16	50,116
589	810	Asedau ar gael i'w Gwerthu	14, 20	2,052
1,163	1,175	Stoc	17	1,251
32,878	37,182	Dyledwyr Tymor Byr	18	29,723
1,771	6,583	Arian a Chywerthydd Arian	19	19,172
108,048	99,774	Asedau Cyfredol		102,314
(25,428)	(15,452)	Gorddrafft Banc	19	(15,554)
(1,468)	(6,444)	Benthyciadau Tymor Byr	16	(5,608)
(39,807)	(43,767)	Credydwyr Tymor Byr	21	(45,355)
(591)	(57)	Darpariaethau Tymor Byr	22	0
(7,228)	(6,062)	Derbyniadau Grantiau Cyfalaf a Refeniw o flaen llaw	34	(1,829)
(74,522)	(71,782)	Ymrwymïadau Cyfredol		(68,346)
(342)	(297)	Credydwyr Tymor Hir	16	(251)
(3,166)	(3,273)	Darpariaethau Tymor Hir	22	(3,390)
(137,533)	(132,143)	Benthyciadau Tymor Hir	16	(113,866)
(131,886)	(281,237)	Ymrwymïad Pensiwn	41	(90,421)
(248)	(137)	Ymrwymïadau Prydlesau Cyllidol	37	(49)
(273,175)	(417,087)	Ymrwymïadau Tymor Hir		(207,977)
304,546	163,469	Asedau Net		183,180
(59,931)	(61,441)	Reserfau Defnyddiadwy	23	(71,611)
(244,615)	(102,028)	Reserfau na ellir eu defnyddio	24	(111,569)
(304,546)	(163,469)	Cyfanswm Reserfau		(183,180)

DATGANIAD LLIF ARIAN – 2010/11

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn arian a chywerthydd arian yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Trwy rannu'r llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu, dengys y datganiad sut mae'r Awdurdod yn cynhyrchu a defnyddio arian a chywerthydd arian. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Awdurdod a ariennir trwy incwm grant a threthiant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae'r Gweithgareddau Buddsoddi yn cynrychioli'r all-lif arian a wnaed am adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarpariad gwasanaeth yr Awdurdod yn y dyfodol. Mae'r llif arian a gyfyd o weithgareddau ariannu yn ddefnyddiol i ragweld yr hawl sydd gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyciadau) ar lif arian yr awdurdod yn y dyfodol.

2009-10 £'000		Nodyn	2010-11 £'000
2,089	(Gwarged) neu Ddiffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau		168,470
(42,492)	Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol	25a	(220,956)
(4,344)	Addasiadau am eitemau cynwysiedig yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sydd yn weithgareddau buddsoddi neu ariannu	25b	(4,595)
(44,747)	Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu	25c	(57,081)
21,551	Gweithgareddau Buddsoddi	26	18,689
8,408	Gweithgareddau Ariannu	27	25,905
(14,788)	Cynnydd net mewn arian a chywerthydd arian		(12,487)
(23,657)	Arian a chywerthydd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd	19	(8,869)
(8,869)	Arian a chywerthydd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd	19	3,618

NODIADAU I'R CYFRIFON

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO

1.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion yr Awdurdod yn y flwyddyn ariannol 2010/11 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn honno, sef 31 Mawrth 2011. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Awdit (Cymru) 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y Côt Ymarfer Cyfrifwaith Awdurdodau Lleol yn y DU 2010/11 a'r *Cod Ymarfer Cyfrifo ar gyfer Gwerth Gorau 2010/11*, ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh) a chyfarwyddiadau statudol a gyhoeddir yn unol â Deddf 2005.

Confensiwn cost hanesyddol yw'r egwyddor cyfrifo sydd wedi ei fabwysiadu'n bennaf yn y Datganiad o'r Cyfrifon, wedi'i addasu gan ailbrisiad rhai categorïau o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

Mewn perthynas â pholisi yn ymwneud a cyfalafu gwariant, ein ymarferiad yw gweithredu ar sail natur y gwariant yn hytrach na lefel penodol o wariant.

1.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn maent yn cymeryd lle, nid pan wneir neu dderbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y referniw o werthu nwyddau yn cael ei adnabod pan fydd yr Awdurdod yn trosglwyddo'r risgiau arwyddocaol a buddion perchnogaeth i'r prynwr, a pan mae'n debygol y bydd buddiant economaidd neu'r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda'r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i'r Awdurdod.
- Bydd referniw o ddarparu gwasanaeth yn cael ei adnabod pan fydd yr Awdurdod yn gallu mesur yn ddibynadwy'r canran sydd wedi ei gwblhau o'r trafodyn ynghyd â'r tebygolrwydd y bydd buddiant economaidd neu'r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda'r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i'r Awdurdod.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwllch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen pan fod balansau o'r fath yn cael eu cysidro yn faterol berthnasol.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a roddwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na pryd fydd taliadau wedi eu gwneud.
- Bydd llog sy'n cael ei dderbyn o fuddsoddiadau yn ogystal â llog fydd yn daladwy ar fenthyciadau yn cael ei gyfrifo yn ôl eu trefn fel incwm a gwariant ar sail gyfradd llog effeithiol i'r erfyn cyllidol perthnasol yn hytrach nac i'r llif arian sydd wedi eu sefydlogi neu wedi'i bennu gan y cytundeb.
- Ble mae referniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu dalu allan, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid ysgrifennu'r dyledion lawr a chodi tal allan o gyfrif referniw am yr incwm fydd yn debygol o beidio cael ei gasglu.

1.3 Arian a Chywerthydd Arian

Caiff unrhyw fuddsoddiadau tymor byr sydd gan yr Awdurdod y mae modd eu troi'n arian yn rhwydd gyda risg isel o newid yn eu gwerth, eu categorio fel cywerthyddion arian a'u cynnwys fel Arian a Chywerthydd Arian ar y Fantolen. Adnau tymor byr gyda sefydliadau ariannol sydd ar gael ar unwaith ar ddyddiad y fantolen yw'r buddsoddiadau a gynhwysir yn y diffiniad hwn.

1.4 Asedau Dibynnol

Mae ased dibynnol yn codi pan mae digwyddiad ble mae posibilrwydd caiff yr Awdurdod ased ble bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall digwyddiad ansicr sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod.

Nid yw asedau dibynnol yn cael eu datgan ar y Fantolen ond yn hytrach, mewn nodyn i'r cyfrifon os yw'n debygol bydd mewnllif o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth.

1.5 Ymrwymiadau Dibynnol

Ceir ymrwymiad dibynnol pan fod digwyddiad sy'n arwain at rwymedigaeth posib ar ran yr Awdurdod ble bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall digwyddiad ansicr sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod. Ceir ymrwymiad dibynnol yn ogystal pan bod amgylchiadau y gwneir darpariaeth amdanynt fel arfer, ond unai, nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau, neu, ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddbynadwy.

Nid yw ymrwymiadau dibynnol yn cael eu datgan ar y Fantolen ond yn hytrach, mewn nodyn i'r cyfrifon.

1.6 Corfforaethol a Democrataidd Craidd

Mae'r pennawd Corfforaethol a Democrataidd Craidd yn cynnwys eitemau sydd yn berthnasol i'r Cynrychiolaeth Democrataidd a Rheolaeth a Rheolaeth Corfforaethol. Mae'r Cynrychiolaeth Democrataidd a Rheolaeth yn cynnwys ffurfio polisau corfforaethol a gweithgareddau aelodau tra mae Rheolaeth Corfforaethol yn cynnwys costau sydd yn gysylltiedig â rhedeg yr awdurdod.

1.7 Buddiannau Gweithwyr

1.7.1 Buddion sy'n daladwy yn ystod cyflogaeth

Buddion tymor byr yw'r rhain hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tal gwyliau a thal salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithiwr yn gwasanaethu'r Awdurdod. Gwneir darpariaeth ar gyfer cost hawl gwyliau (neu unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith e.e. amser wedi ei gronni) sydd yn ddyledus i'r gweithwyr ond sydd heb eu cymered cyn diwedd y flwyddyn ac yn cael eu cario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar raddfeydd cyflog sydd yn berthnasol i'r flwyddyn ariannol ddilynol, sef y flwyddyn mae'r gweithiwr yn derbyn y budd o'r gwyliau. Mae cost y ddarpariaeth yn mynd yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau ond mae wedyn yn cael ei wrth-droi drwy'r Datganiad Symudiadau mewn Darpariaethau fel bod cost y gwyliau yn mynd yn erbyn y flwyddyn y cymerir y gwyliau.

1.7.2 Buddion terfynu cyflogaeth

Mae'r rhain yn daladwy fel canlyniad i benderfyniad yr Awdurdod i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad y swyddog i dderbyn tal diswyddo gwirfoddol ac fe'u codir ar sail addasiad cronïad yn erbyn y llinell Costau Heb eu Dosrannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr os yw'r Awdurdod yn amlwg yn ymrwymedig i derfynu cyflogaeth swyddog neu ddsbarth o swyddogion neu yn gwneud cynigion i annog diswyddo gwirfoddol.

Pan fo buddion terfynu cyflogaeth yn cynnwys ychwanegiadau i bensiynau mae'r ddarpariaeth statudol yn golygu y dylai Cronfa'r Cyngor dderbyn y gost sydd yn daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu i'r pensiynwr yn hytrach na'r swm wedi ei gyfrifo yn unol â'r safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau mae angen neilltuo symiau i ac o'r Gronfa Bensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol am fuddion pensiynau ychwanegol terfynu a rhoi yn eu lle y debydau am yr arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau taladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn.

1.7.3 Buddion ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr yr awdurdod yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- Y Cynllun Pensiwn Athrawon a weinyddir gan Capita Teachers' Pensions.
- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lymf-symiau) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Awdurdod.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer y cynllun athrawon yn golygu nad yw ymrwymiadau'r buddion yn cael eu hadnabod i'r Awdurdod. Mae'r Cynllun felly yn cael ei gyfrifo fel petai yn gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid yw ymrwymiadau ar gyfer taliadau yn y dyfodol yn cael eu hadnabod yn y Fantolen. Mae'r llinell Gwasanaethau Plant ac Addysg yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynnwys cost cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn y flwyddyn.

1.7.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon yr Awdurdod ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y Gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun.

Mae'r Cynllun Llywodraeth leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig:

Mae ymrwymadau'r gronfa sydd i'w priodoli i'r Awdurdod yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwariad drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr a.y.b. yn ogystal â thafluniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

Gostyngir yr ymrwymadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol gan ddefnyddio graddfa ddisgownt o 5.5% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondau corfforaethol o werth AA.

Mae asedau'r Gronfa Bensiwn sydd i'w priodoli i'r Awdurdod yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan actwari'r Gronfa.

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i saith cydran:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni- dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau lle mae'r gweithwyr yn gweithio.
- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd yn y blynyddoedd cynt - y debyd yn mynd i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o Gostau heb eu Dosrannu.
- Cost Llog – y cynnydd disgwylidig yng ngwerth presennol yr ymrwymadau yn ystod y flwyddyn fel y maent yn symud flwyddyn yn agosach at amser talu - y debyd yn mynd i linell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Enillion disgwylidig ar asedion - enillion blynyddol buddsoddiadau ar asedion y gronfa a briodolir i'r Awdurdod, yn seiliedig ar gyfartaledd yr enillion hirdymor disgwylidig – gyda'r credyd yn mynd i linell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Enillion a cholledion ar setliadau a chwtogiadau - canlyniad o weithredu i ryddhau'r Awdurdod o'r ymrwymadau neu ddigwyddiadau sydd yn gostwng gwasanaeth disgwylidig y gweithwyr yn y dyfodol neu ostwng cronid buddion y gweithwyr- yn cael eu debydu neu eu credydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau fel rhan o'r Costau heb eu Dosrannu.
- Enillion a cholledion actiwariad - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwariad diwethaf neu am nad yw'r actwari wedi diweddarau ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn.
- Cyfraniadau a delir i'r Gronfa Bensiwn - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn ar gyfer setliad ymrwymadau; sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i Gronfa'r Cyngor dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiadau mewn Reserfau, golygir hyn bod angen neilltuo arian i neu allan o'r Gronfa Bensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi yn eu lle'r debydau am arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd

heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sydd yn deillio o hyn yn y Gronfa Bensiwn yn fesur o effaith buddiol i Gronfa'r Cyngor o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

1.7.5 Buddion Dewisol

Mae gan yr Awdurdod hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeol cynnar. Bydd unrhyw ymrwymadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o'r staff (yn cynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisiau a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

1.8 Digwyddiadau Ôl-Fantolen

Digwyddiadau ôl-fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ag anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith faterol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd â amcangyfrif o'r effaith ariannol (lle gellid amcangyfrif y gost) yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu adlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

1.9 Eitemau Eithriadol ac Addasiadau Blwyddyn Blaenorol

Pan fo eitemau o incwm a gwariant yn faterol, yna caiff eu natur a'u gwerth eu datgelu ar wahân, unai ar wyneb y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr neu yn y nodiadau i'r cyfrifon, yn ddibynnol ar pa mor arwyddocaol yw'r eitemau i ddealltwriaeth o berfformiad ariannol yr Awdurdod.

Gall yr angen i wneud addasiadau blwyddyn blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisiau cyfrifo neu i gywiro gwall sylweddol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod a effeithir gan y newid. Ni wneir addasiad blwyddyn blaenorol.

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisiau cyfrifo yw pan yn ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu bod y newid yn darparu gwybodaeth mwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol yr Awdurdod. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai y nodir yn wahanol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

1.10 Offerynnau Ariannol

Offeryn Ariannol yw unrhyw gytundeb sydd yn creu ased ariannol mewn un endid ac ymrwymiad ariannol neu offeryn ecwiti mewn endid arall. Felly, mae'r term offeryn ariannol yn cynnwys asedau ariannol ac ymrwymadau ariannol.

Mewn cydymffurfiad gyda'r gofynion adolygwyd asedau ac ymrwymadau ariannol y Cyngor er mwyn eu categorio i ddeddfu ar y triniaeth cywir. Adnabwyd yr offerynnau canlynol wrth wneud yr adolygiad hwn:

Ymrwymadau ariannol

- Credydwy'r masnachol a chredydwy'r eraill.
- Benthyciadau tymor hir gan gynnwys premiwmms a disgownts ar setliad cynnar benthyciadau sydd wedi eu gohirio.
- Gwarantau ariannol.

Asedau ariannol

- Adnau banc
- Dyledwy'r masnachol
- Benthyciadau derbyniadwy

- Buddsoddiadau

Mae'r Cyngor yn prasio ei ymrwymadau ariannol ar gost wedi ei amorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol. Cyfrifir llog i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol. Oherwydd fod benthyciadau tymor hir y Cyngor i gyd ar gyfraddau sefydlog, telir y llog cronedig am y flwyddyn.

Mae enillion neu golledion sydd yn codi ar ad-daliad cynnar yn cael eu trin fel eu bod yn diddymu'r ymrwymiad ariannol onibai eu bod yn cwrdd ag amodau caeth lle bo modd trin y trafodyn fel addasiad o amodau'r benthyciad presennol ac addasu gwerth y benthyciad newydd gyda unrhyw enillion neu colledion.

Dosbarthir mwyafrif Asedau ariannol y Cyngor fel benthyciadau neu ddyledwyr ac felly eu prasio ar sail cost wedi ei amorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol.

Caiff unrhyw fuddsoddiadau tymor byr sydd gan yr Awdurdod y mae modd eu troi'n arian yn rhwydd gyda risg isel o newid yn eu gwerth, eu categorio fel cywerthyddion arian a'u cynnwys fel Arian a Chywerthydd Arian ar y Fantolen. Adnau tymor byr gyda sefydliadau ariannol sydd ar gael ar unwaith ar ddyddiad y fantolen yw'r buddsoddiadau a gynhwysir yn y diffiniad hwn.

Mesurir Credydwyr a Dyledwyr tymor byr sydd heb gyfradd llog datganedig ar sail swm yr anfoneb gwreiddiol. Mae hyn yn cynnwys yr holl ddyledwyr a chredydwyr masnachol.

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Ariannu a Chyfrifo am Gyfalaf) (Cymru) (Diwygiedig) 2007 yn caniatáu i effaith ailddatgan offerynnau ariannol gael ei addasu trwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau. Caiff yr addasiadau canlyniadol eu dangos yn y Cyrfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol a'r Reserf Offerynnau Ariannol ar gael i'w gwerthu ar y Fantolen.

Cyn y gofynion newydd yma, lle roedd ail-brynu benthyciadau yn gysylltiedig gyda ail-ariannu neu ail-strwythuro benthyciadau gyda'r un effaith economaidd yn gyffredinol pan welir yn ei gyfanrwydd, polisi y Cyngor oedd adnabod enillion neu golledion dros oes y benthyciad olynol neu gyfnod o 10 mlynedd, pa bynnag sydd fyraf. Mae'r addasiad a ganiateir o dan statud yn golygu bod yr effaith net ar falansau'r Cyngor yn gyfatebol i'r trosglwyddiad o dan y polisi yma.

1.11 Trosiad Arian Tramor

Caiff trafodion mewn arian parod eu trosglwyddo i sterling ar y gyfradd a oedd yn bodoli ar y dyddiad hwnnw. Caiff gwahaniaethau cyfnewid eu cymeryd i ystyriaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff unrhyw falans a ddelir mewn arian tramor ei drosi ar y raddfa ar 31 Mawrth.

1.12 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill

Mae grantiau a chyfraniadau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw yn cael eu cyfrifo ar sail cronadol, ac yn cael eu cydnabod ar unwaith fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod amod ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad nad yw'r awdurdod wedi ei fodloni.

Oherwydd y gofyn i ariannu gwariant cyfalaf fel rhan o'r Gofyn Cyllido Cyfalaf, nid yw'r grantiau a chyfraniadau sy'n ariannu gwariant cyfalaf sydd wedi eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wir incwm. O'r herwydd, mae'r awdurdod yn cyfrifo'r symiau hyn fel a ganlyn:

- Os yw grant neu gyfraniad cyfalaf wedi ei dderbyn, a bod amodau'n parhau heb eu bodloni ar ddyddiad y Fantolen, yna caiff y grant ei gydnabod fel Derbyniadau Grantiau Cyfalaf ymlaen llaw ar y Fantolen. Unwaith mae'r amod wedi ei fodloni, yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Os yw grant neu gyfraniad cyfalaf wedi ei adnabod fel incwm yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a bod y gwariant sydd i'w ariannu o'r grant neu gyfraniad hwnnw wedi ei wneud ar ddyddiad y fantolen, yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo o'r Gronfa Gyffredinol i'r Cyrfrif Addasiadau Cyfalaf, i adlewyrchu dyrannu adnoddau cyfalaf i ariannu gwariant. Adroddir y trosglwyddiad hwn yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

1.13 Stoc a Chontractau Tymor Hir

Dylai stociau a gwaith mewn llaw ymddangos ar y fantolen ar sail yr isaf o gost hanesyddol neu wir werth, yn unol â darpariaethau'r Còd Ymarfer. Ond oherwydd ymarferoldeb prif systemau stoc y Cyngor, mae mwyafrif y stoc yn ymddangos yn y cyfrifon ar sail cost cyfartalog. Nid yw'r gwahaniaeth mewn sail prisiad yn faterol.

1.14 Eiddo Buddsoddi

Eiddo buddsoddi yw'r rhai hynny a ddefnyddir ar gyfer ennill rhent ac/neu adbrisiant cyfalaf yn unig. Nid yw'n cwrdd â'r diffiniad os defnyddir yr eiddo mewn unrhyw ffordd i hwyluso darpariaeth gwasanaethau neu gynhyrchu nwyddau neu os yw ar gael i'w werthu.

1.15 Prydlesau

Caiff prydlesau eu dosbarthu'n brydlesi cyllidol pan fo'r holl risgiau a buddion sy'n deillio o berchnogaeth o'r eiddo, offer neu gyfarpar yn cael eu trosglwyddo i'r prydlesai. Caiff bob prydles arall eu dosbarthu'n brydlesi gweithredol.

Yr Awdurdod fel Prydlesai:

Caiff symiau a ddelir dan brydlesi cyllidol eu adnabod yn wreiddiol, ar ddechrau'r brydles, ar werth teg (neu, os yn is, gwerth presennol y lleiafswm taliadau prydles), gydag ymrwymiad cyfatebol am rwymediageith y brydles i'r prydleswr. Caiff taliadau'r brydles eu dosrannu rhwng cost ariannol (i'w gynnwys yn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr) a chost a roir yn erbyn ymrwymiad y brydles i'w leihau. Caiff yr ased perthnasol ei drin yn unol â'r polisiau arferol, a caiff ei ddibrisio fel sy'n briodol.

Caiff taliadau prydlesau gweithredol eu dangos yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel cost i'r gwasanaeth perthnasol ar sail dibrisiad llinol dros gyfnod y brydles.

Yr Awdurdod fel Prydleswr:

Ar hyn o bryd, nid oes gan yr Awdurdod unrhyw Brydlesi Cyllidol ble mae'r Awdurdod yn brydleswr.

Caiff incwm rhent o eiddo sydd wedi ei ganiatáu trwy brydles gweithredol ei gydnabod ar sail llinol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a caiff yr ased ei ddangos ar y Fantolen.

1.16 Asedau Gweddilliol

Caiff Asedau Gweddilliol yr Awdurdod eu dangos ar wahan ar y Fantolen. Gwerth teg yr asedau hyn sy'n cael ei ddangos, sy'n seiliedig ar eu gwerth defnydd presennol.

1.17 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol

Mae'r taliadau am wasanaethau a ddarperir gan Adrannau Canolog Cefnogol yn seiliedig ar gyfuniad o brisiau a bennir ymlaen llaw, amser y staff a gofnodir, cofnodi trafodion a fformiwlâu penodedig.

Yr unig gostau a adewir heb eu dyrannu yw costau rheolaeth corfforaethol a chostau cefnogol nad oes rhaid eu dosrannu yn ôl darpariaethau'r Còd Ymarfer. Mae'r dosraniad yn cydymffurfio gyda'r Còd Ymarfer Cyfrifo ar gyfer Gwerth Gorau.

1.18 Asedau Tymor Hir

Adolygir gwerth asedau'r Cyngor a gofnodir ar fasdata'r Gwasanaeth Eiddo o leiaf bob 5 mlynedd. Mae hyn yn unol â'r Còd a'r Datganiadau Egwyddorion Prisio Asedau a Nodiadau Arweiniad a gyhoeddwyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae'r gwerthusiad cyflawn diwethaf yn effeithiol o'r 1af Ebrill 2010.

Dangosir Tir ac Adeiladau ar sail gwerth teg neu gost ail-adeiladu dibrisiedig (DRC) ar gyfer eiddo arbenigol.

Dangosir Eiddo Buddsoddi ar sail gwerth defnydd presennol.

Defnyddir cost hanesyddol (a ddibrisiwyd) ar gyfer Cerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar.

Mae Asedau is adeiladwaith a chymunedol yn ymddangos ar bris hanesyddol.

Cynhwysir Asedau heb eu cwblhau ar sail cost hanesyddol tan gwblheir y gwaith, pan eu prisir yn unol â'r polisiau cyfrifo a'u trosglwyddo i'r categori Asedau perthnasol.

Defnyddir isafswm at ddibenion prisio o £20,000 ar gyfer tir ac adeiladau gweithredol y Cyngor a £5,000 ar gyfer eitemau unigol o Gerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar.

Fe ychwanegir gwariant ar asedau newydd a chyfredol yn flynyddol, gan wedyn ystyried os ydy'r gwariant yma wedi cynhyrchu cynnydd mewn gwerth i'r ased. Os oes cynnydd mae hyn yn cael ei adlewyrchu drwy'r Reserf Ail Brisio; os nad oes cynnydd mae'n dilyn fod amhariad i werth yr ased (gweler isod ar gyfer dull cyfrifo am amhariad). Yn benodol ar gyfer Asedau o'r math Tir ac Adeiladau ac Asedau Cymunedol ble ceir gwariant yn y flwyddyn o dros £100,000 ar ased unigol, mae Rheolwr Eiddo Corfforaethol (M.R.I.C.S) y Cyngor yn adolygu'r asedau ac yn ail brisio unrhyw un sydd ei angen.

Amhariad a Dibrisiant

Amhariad

Amhariad yw treuliant budd economaidd sydd yn benodol i ased. Yn unol â Safon Adrodd Rhyngwladol 36 mae'r Cyngor yn adolygu eu hasedau bob blwyddyn i adnabod unrhyw amhariad neu leihad mewn gwerth oherwydd treuliant buddiannau economaidd. Yn ogystal, caiff gwerth gweddilliol ac oes fuddiol yr asedau eu hadolygu'n flynyddol, a'u haddasu ble'n briodol.

Pan mae colledion amhariad yn cael eu adnabod, maent yn cael ei gyfrifo fel a ganlyn:

- Ble mae balans o gynnydd positif ar gyfer pris ased o fewn y Reserf Ail-brisio, bydd gwerth yr ased yn cael ei ysgrifennu ffwrdd yn erbyn y balans (hyd at swm y cynnydd cronodig)
- Pan nad oes balans ar y Reserf Ail-brisio neu balans annigonol, bydd gwerth yr ased yn cael ei ysgrifennu ffwrdd yn erbyn llinell y gwasanaeth (au) perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Dibrisiant

Prif elfen IAS 16 yw y dylid dibrisio adeiladau oni bai eu bod yn cael eu prisio bob blwyddyn. Yn ogystal, dylid dibrisio bob rhan o eiddo, offer a chyfarpar ar wahân os yw eu cost yn arwyddocaol o ystyried cyfanswm cost yr eitem. Dylid sefydlu trothwy isafswm, yn seiliedig ar yr effaith sylweddol tebygol ar y datganiadau ariannol, fel bod bob ased o dan y trothwy yn cael eu diystyru i bwrpas cydrannu. (£1.28m yw'r trothwy ar gyfer 2010/11, sef 1% o werth yr holl adeiladau). Y dosraniad sydd yn cael ei ystyried ar gyfer yr elfen sydd ddim yn dir, dros y trothwy de-minimis ydi:

- a) offer a chyfarpar a gwasanaethau peiranneg, ac
- b) adeiledd

Mae'r mwyafrif o adeiladau'r Cyngor (dros 75%) yn cael eu prisio ar sail Cost Ail-adeiladu Dibrisiedig (DRC), a ddatblygir ar y dull cydrannol, ac adlewyrchir y gwahanol elfennau ym manylion y cyfrifiadau. Fodd bynnag, yn gynwysiedig yn yr uchod mae adeiladau gydag eitemau sylweddol o offer a chyfarpar sydd â oes fuddiol byr e.e. boileri ac offer gwresogi pyllau nofio a chanolfannau hamdden. Adnabyddir yr elfennau hyn drwy addasu oes fuddiol yr adeilad i gymeryd oes fyrrach yr elfennau i ystyriaeth.

Yn seiliedig ar adolygiad o natur a'r math o adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor, daethpwyd i'r canlyniad nad oes gan gweddill yr adeiladau eitemau sylweddol o offer a chyfarpar na gwasanaethau peiranneg sydd angen eu cydrannu ar wahan.

Dibrisir Asedau ar sail eu gwerth ar y fantolen i'w ysgrifennu i ffwrdd fel a ganlyn:

- (i) Dibrisir cerbydau, offer dodrefn a chyfarpar dros eu bywyd amcangyfrifedig (3 – 10 mlynedd)
- (ii) Dibrisir is-adeiladwaith dros 40 mlynedd
- (iii) Ysgrifennir Gwariant Refeniw i'w ariannu o Gyfalaf drwy Statud i lawr yn y cyfnod yr ymddangosant
- (iv) Ni ddibrisir tir
- (v) Dibrisir adeiladau dros eu bywyd amcangyfrifedig (amrywiol)
- (vi) Ni ddibrisir Eiddo Buddsoddi, Asedau heb eu Cwblhau nac Asedau Sydd Ar Gael i'w Gwerthu

Ni ddibrisir ym mlwyddyn y caffaeliad.

O'r 31ain o Fawrth 2008, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2008 [y "Rheoliadau Diwygiedig"]. Mae'r rheoliadau yma yn cyflwyno newidiadau penodol i'r rhai a gafodd eu cyflwyno yn 2003 [y "Rheoliadau Gwreiddiol"] fel rhan o weithrediad y gyfundrefn Benthycia Ddarbodus. Ymhlith y newidiadau sydd wedi eu cyflwyno mae'r gofyn am Ddatganiad Polisi Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLIR) blynyddol.

Mae'r Rheoliadau Gwreiddiol yn gosod allan sail statudol a fformiwla gymhleth ar gyfer cyfrifo'r DLIR. Mae'r Rheoliadau Diwygiedig ond yn gofyn am dâl sydd yn 'ddarbodus', ac mae awdurdodau yn cael defnyddio fwy o ddisgresiwn yn nhermau'r tâl a godwyd, serch fod hyn o fewn rhai paramedrau. Dangosir y Datganiad DLIR Blynyddol ar gyfer 2010/11 isod -

Ar gyfer gwariant cyfalaf cyn y 1af o Ebrill 2008, neu wariant cyfalaf fydd gyda chefnogaeth yn y dyfodol, bydd y DLIR yn seiliedig ar 4% o'r balans agoriadol o'r Gofyn Cyllido Cyfalaf llai addasiad ('A') (Opsiw 1). Bwriad yr addasiad ('A') yw sicrhau niwtraliaeth rhwng y Gofyn Cyllido Cyfalaf a'r hen Nenfwd Credyd oedd yn arfer cael ei ddefnyddio i gyfrifo'r DLIR cyn cyflwyniad y Gyfundrefn Ddarbodus ar 1af Ebrill 2004.

O'r 1af o Ebrill 2008, ar gyfer yr oll fenthycia heb gefnogaeth a weithredwyd drwy'r Cod Darbodus, bydd y polisi DLIR yn seiliedig ar y Dull Oes yr Ased (Opsiw 3). Bydd y ddarpariaeth lleiafswm refeniw mewn rhandaliadau cyfartal dros oes yr ased. Bydd y tal cyntaf yn cael ei oedi hyd nes bydd yr ased yn weithredol.

Bydd cyfnodau oes asedau amcangyfrifedig yn cael eu pennu o dan bwerau dirprwyedig. Os nad yw gwariant yn creu ased, ond yn fath sydd yn amodol ar gyfnodau oes amcangyfrifedig sydd yn cael eu cyfeirio at yn yr arweiniad, bydd y cyfnodau yma yn gyffredinol yn cael eu mabwysiadu gan y Cyngor. Ond, mae'r Cyngor yn neilltuo'r hawl i bennu cyfnodau oes ddefnyddiol a DLIR darbodus mewn amgylchiadau eithriadol ble na fyddai argymhellion yr arweiniad yn briodol.

Gan na ellir cysylltu bob elfen o wariant cyfalaf y Cyngor i asedau unigol, bydd oes yr asedau yn cael eu hasesu ar y sail mwyaf addas fydd yn adlewyrchu'r cyfnod o fudd a ragwelir a ddeillir o'r gwariant. Yn ogystal, pa bynnag fath o wariant a wneir, bydd yn cael ei grwpio efo'i gilydd mewn dull fydd yn adlewyrchu natur yr elfen bennaf o wariant ac yr unig amser y rhennir y gwariant fydd mewn amgylchiadau ble mae dau neu fwy prif elfen gydag oes ddefnyddiol economaidd sylweddol gwahanol.

Bydd yr Awdurdod yn adolygu'r polisi yma yn flynyddol yng ngoleuni'r Cynllun Rheoli Asedau.

Yn unol â'r Cod Ymarfer, telir am wariant cyfalaf ar gyfer Gwasanaethau Cronfa'r Cyngor sydd i'w gyllido o refeniw drwy ei ddsbarthu i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

1.19 Costau heb eu Dosrannu

Mae'r mwyafrif o'r gwasanaethau cefnogol canolog yn cael eu dyrannu i'r rhaniad gwasanaeth yn unol â Côt Ymarfer Cyfrifeg Gwerth Gorau CIPFA 2010-11. Mae'r eitemau sydd yn cael eu heithrio o'r driniaeth yma yn cael eu diffinio fel Costau heb eu dosrannau, a'r ddau brif maes yw:-

- Costau Budd-dal Ymddeol (costau cyn wasanaeth, setliad a cwtogiad)
- Costau o elfennau o gyfleusterau TG ac asedau eraill sydd ddim yn cael eu defnyddio.

Yn 2010-11, mae yna eitem eithriadol o dan Costau heb eu dosrannu sy'n deillio o'r defnydd o'r mynegai pris defnyddiwr yn hytrach na'r mynegai pris manwerthu i gyfrifo cynnydd pensiynau sector gyhoeddus.

1.20 Darpariaethau

Mae'r Cyngor yn gosod o'r neilltu ddarpariaethau ar gyfer ymrwymadau penodol sy'n debygol neu'n sicr o godi ond ni ellir ar hyn o bryd eu pennu'n gywir. Gwneir darpariaethau hefyd ar gyfer dyledion sydd yn annhebyg o gael eu talu. Ysgrifennir dyledion drwg i ffwrdd yn erbyn y gwasanaeth perthnasol. Mae'r Cyngor yn dosbarthu'r darpariaethau hyn fel ymrwymadau tymor hir neu dymor byr fel sy'n briodol yn ddibynnol ar nature bob darpariaeth.

1.21 Reserfau

Yn unol â darpariaeth Deddf Llywodraeth Leol 1988, mae'r Cyngor yn cynnal un Cronfa Gyffredinol sydd yn cynrychioli arian wrth gefn yr Awdurdod. Fodd bynnag, ceir hefyd nifer o Reserfau Penodol cyfalaf a refeniw.

Cedwir rhai reserfau i reoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol a buddion gweithwyr. Nid yw'r rhain yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy yr Awdurdod.

1.22 Gwariant Refeniw wedi'w Ariannu o Gyfalaf Drwy Statud

Mae Deddfwriaeth yn caniatáu peth gwariant i gael ei gategoreiddio fel cyfalaf i bwrpas ariannu er nad yw yn creu ased sydd yn cael ei gario ar y Fantolen. Bwriad hyn yw galluogi'r gwariant i gael ei ariannu o adnoddau cyfalaf yn hytrach nag ei roi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol a fyddai'n cael effaith ar y Dreth Cyngor am y flwyddyn. Defnyddir cost hanesyddol fel sail prisio ar gyfer y fantolen ac ysgrifennir hwn i lawr o fewn blwyddyn.

1.23 Treth ar Werth

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW, y cynhwysir TAW mewn gwariant cyfalaf a refeniw.

1.24 Dyledwyr a Chredydwyr

Cedwir cyfrifon y Cyngor ar sail cronni yn unol â'r Côd Ymarfer Cyfrifwaith. Hynny yw, cynhwysir symiau sy'n ddyledus i, neu oddi wrth y Cyngor yn ystod y flwyddyn p'run a'u derbyniwyd neu'u talwyd a'i peidio yn y flwyddyn.

Eithriad i'r arfer yma yw taliadau chwarterol megis trydan, a gyfrifir yn ôl dyddiad darllen y mesurydd yn hytrach na rhannu'r gost rhwng gwahanol flynyddoedd ariannol. Trwy weithredu'r polisi'n gyson ymhob blwyddyn ni chaiff effaith o bwys ar gyfrifon y flwyddyn.

1.25 Pensiynau

Mae'r Safon Adrodd Rhyngwladol (IAS) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol yng Nghymru a Lloegr baratoi eu ddatganiadau ariannol yn unol a gofynion IAS19.

1.26 Dyrannu Llog Derbyniadwy

Mae'r Awdurdod yn buddsoddi arian dros ben am gyfnodau o dros nos hyd at ddwy flynedd a thelir y llog i Gronfa Gyffredinol y Sir, Y Cyfrif Refeniw Tai, Cronfa Bensiwn Gwynedd, Cronfa'r Degwm ac ymddiriedolaethau eraill ar sail eu balansau dyddiol a'r gyfradd llog a enillir.

1.27 Costau Benthycia

Nid yw'r Awdurdod yn cyfalafu costau benthycia sy'n perthyn i gaffaeliad, gwneuthuriad na chynhyrchiad ased cymwysiedig fel a ganiateir yn y Côd.

Cyfrifir am log sydd yn daladwy ar fenthyciadau allanol yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo ar sail sy'n adlewyrchu effaith economaidd gyflawn y benthyciad.

1.28 Buddiannau mewn Cwmnïau ac Endidau Eraill

Yng nghyfrifon yr Awdurdod, caiff buddiannau mewn cwmnïau ac endidau eraill eu adrodd fel asedau ariannol ar gost gwreiddiol, llai unrhyw ddarpariaeth am golledion.

1.29 Asedau Cyfredol ar gael i'w gwerthu

Er mwyn i ased gael ei gydnabod fel Ased ar gael i'w werthu, mae'n ofynnol i'r ased fod ar gael i'w werthu yn syth yn ei gyflwr presennol, mae'n rhaid i'r gwerthiant fod yn hynod o debygol, rhaid i'r ased gael ei farchnata a'r gwerthiant gael ei gwblhau o fewn blwyddyn i ddyddiad y dosbarthiad. Caiff yr ased ei gydnabod ar yr isaf o'i werth i'w gario neu werth teg (gwerth y farchnad) llai costau gwerthu wrth aiddosbarthu.

1.30 Gwaredu Asedau

Pan mae ased yn cael ei waredu, mae gwerth yr ased yn y fantolen yn cael ei ysgrifennu ffwrdd i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw a cholled wrth waredu. Mae derbyniadau (os oes rhai) yn cael ei gredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw neu golled wrth waredu (e.e. cael ei glustnodi yn erbyn gwerth yr ased ar adeg y gwaredu). Mae unrhyw gynnydd wedi eu recordio ar gyfer yr ased yn y Reserf Ail-brisio yn cael ei drosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

1.31 Derbyniadau Cyfalaf

Pan werthir Asedau gan yr Awdurdod mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'r defnydd y gellir ei wneud o'r derbyniadau cyfalaf.

Gellir defnyddio 100% o'r holl dderbyniadau cyfalaf sydd yn perthyn i Gronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai ac nid yw'n angenrheidiol bellach i roi canran o'r derbyniad o'r neilltu. Cedwir y derbyniadau yn y Reserf Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy hyd nes defnyddir yr adnoddau i gyllido gwariant cyfalaf.

NODYN 2 – TRAWSNEWID I SAARh (Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol)

Y Datganiad o'r Cyfrifon 2010/11 yw'r cyntaf i gael ei baratoi ar sail SAARh (Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol). O ganlyniad i fabwysiadu'r Côt sy'n seiliedig ar SAARh, mae'n ofynnol ail-ddatgan nifer o falansau a thrafodion, sy'n golygu bod rhai ffigyrau a gyflwynir yn y datganiadau ariannol yn wahanol i'r ffigyrau cymharol a adroddwyd yn y Datganiad o'r Cyfrifon 2009/10.

Mae'r tablau isod yn egluro'r gwahaniaethau sylweddol rhwng y ffigyrau a gyflwynwyd yn natganiadau ariannol 2009/10 a'r ffigyrau cymharol a gyflwynir yn natganiadau ariannol 2010/11. Mae yna nodiadau yn dilyn y tablau yn egluro'r prif newidiadau i'r Cyfrifon.

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

	DATGANIAD O'R CYFRIFON 2009-10			Addasiadau Ail-ddatgan ar gyfer SAARh						AIL DDATGAN 2009-10		
	Gwariant	Incwm	Net	Lesau Cyllidol	Lesau Gweithredol	Ail-gategoreiddio Asedau Anghyfredol	Buddiannau Gweithwyr	Grantiau Gohiriedig	Grantiau Cyfalaf	Gwariant	Incwm	Net
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Diwylliant a Gwasanaethau Cysylltiedig	17,929	(7,162)	10,767	(1)	0	2	(1)	282	0	17,928	(6,880)	11,048
Gwasanaethau Amgylcheddol	24,940	(9,107)	15,833	1	0	0	(2)	1,009	0	24,950	(8,109)	16,841
Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu	8,701	(4,199)	4,502	0	0	0	(1)	267	0	8,701	(3,933)	4,768
Gwasanaethau Plant ac Addysg - Addysg	108,251	(19,077)	89,174	(1)	0	0	728	441	0	109,419	(19,077)	90,342
Gwasanaethau Plant ac Addysg - Gofal Cymdeithasol Plant	16,319	(2,851)	13,468	0	0	0	(1)	14	0	16,318	(2,837)	13,481
Priffyrdd, Ffyrdd a Thrafnidiaeth	24,380	(9,209)	15,171	0	0	0	(2)	1,547	0	24,378	(7,662)	16,716
Gwasanaethau Tai (Cronfa'r Cyngor)	41,073	(38,112)	2,961	0	0	0	(1)	3,851	0	41,072	(34,261)	6,811
Gofal Cymdeithasol Oedolion	56,901	(16,588)	40,313	0	0	0	(5)	363	0	56,896	(16,224)	40,672
Gwasanaethau Canolog i'r Cyhoedd	10,781	(9,393)	1,388	0	0	0	0	0	0	10,780	(9,392)	1,388
Costau Corfforaethol a Democraataidd Craidd	9,714	(5,095)	4,619	0	0	1	(3)	19	0	9,713	(5,078)	4,635
Costau Heb eu Dosrannu	161	0	161	0	0	0	0	6	0	168	0	168
Cyfrif Refeniw Tai	30,511	(21,022)	9,489	11	0	0	(1)	520	0	30,522	(20,502)	10,020
Cost Gwasanaethau	349,661	(141,815)	207,846	10	0	3	711	8,319	0	350,845	(133,955)	216,890
<u>Gwariant Gweithredol Arall</u>												
Praeseptau a Lefiau			17,640	0	0	0	0	0	0			17,640
Gwarged/colledion ar waredu Asedau Sefydlog			(287)	0	0	0	0	0	0			(287)
			225,199	10	0	3	711	8,319	0			234,243

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

DATGANIAD O'R CYFRIFON 2009-10			Addasiadau Ail-ddatgan ar gyfer SAARh						AIL DDATGAN 2009-10		
Gwariant	Incwm	Net	Lesau Cyllidol	Lesau Gweithredol	Ail-gatgoreiddio Asedau Anghyfredol	Buddiannau Gweithwyr	Grantiau Gohiriedig	Grantiau Cyfalaf	Gwariant	Incwm	Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<u>Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi</u>											
Llog Taladwy a Thaliadau Tebyg		8,455	12	0	0	0	0	0			8,467
Llog ac incwm ar fuddsoddiadau		(1,407)	0	0	0	0	0	0			(1,407)
Cost Llog Pensiynau ac Enillion a Ddisgwyliar ar Asedau		10,009	0	0	0	0	0	0			10,009
Newidadau mewn Gwerth Teg Eiddo Buddsoddi		0	0	0	0	0	0	0			0
Gwarged/Colledion Gwasanaethau Masnachol		159	5	0	0	(2)	160	0			322
		242,415	27	0	3	709	8,479	0			251,634
		242,415	27	0	3	709	8,479	0			251,634
<u>Treth ac Incwm Grant amhenodol</u>											
Y Dreth Cyngor		(56,546)	0	0	0	0	0	0			(56,546)
Incwm Net y Dreth Ddi-Annedd		(32,263)	0	0	0	0	0	0			(32,263)
Grantiau Llywodraeth - Refeniw		(136,546)	0	0	0	0	0	0			(136,546)
Grantiau Llywodraeth - Cyfalaf		0	0	0	0	0	0	(24,190)			(24,190)
		17,060	27	0	3	709	8,479	(24,190)			2,089
Gweddill / Diffyg yn deillio o Ailbriso Asedau Sefydlog		(10,369)	0	0	0	0	0	0			(10,369)
Gweddill / Diffyg yn deillio o Ailbriso Asedau Ariannol sydd ar gael i'w gwerthu		(2)	0	0	0	0	0	0			(2)
Enillion / Colledion Actiwaraid ar Asedau ac Ymrwymadau Pensiwn		149,359	0	0	0	0	0	0			149,359
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall		0	0	0	0	0	0	0			0
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		156,048	27	0	3	709	8,479	(24,190)			141,077

Y FANTOLEN AR 31.03.10

	Datganiad o'r Cyfrifon 31.03.10 £'000	Ail- ddosbarthu Asedau £'000	Asedau ar gael i'w Gwerthu £'000	Ail- ddosbarthu Grantiau £'000	Ail- ddosbarthu Prydlesau £'000	Buddion Gweithwyr £'000	Tymor Hir / Tymor Byr £'000	Ail- ddosbarthu Reserfau £'000	Addasiadau Eraill £'000	Ail- ddatgan 31.03.10 £'000
Eiddo, Offer a Chyfarpar										
Tai Cyngor	252,446	0	0	0	0	0	0	0	0	252,446
Tir ac Adeiladau Eraill	157,318	(81)	0	0	221	0	0	0	0	157,458
Asedau Gweddilliol	0	109	0	0	0	0	0	0	0	109
Is-Adeiladwaith	122,972	0	0	0	0	0	0	0	0	122,972
Ceir, Dodrefn ac Offer	12,921	0	0	0	657	0	0	0	0	13,578
Asedau Cymunedol	645	65	0	0	0	0	0	0	0	710
Asedau heb eu cwblhau	856	0	0	0	0	0	0	0	0	856
Cyfanswm Eiddo, Offer a Chyfarpar	547,158	93	0	0	878	0	0	0	0	548,129
Eiddo Buddsoddi	1,244	(213)	0	0	0	0	0	0	0	1,031
Asedau gwarged i'w gwerthu	690	120	(810)	0	0	0	0	0	0	0
Buddsoddiadau Tymor Hir	1,156	0	0	0	0	0	0	0	0	1,156
Dyledwyr Tymor Hir	2,248	0	0	0	0	0	0	0	0	2,248
Cyfanswm Asedau Tymor Hir	552,496	0	(810)	0	878	0	0	0	0	552,564
Asedau Cyfredol										
Asedau ar gael i'w Gwerthu	0	0	0	0	0	0	0	0	810	810
Stoc	1,175	0	810	0	0	0	0	0	(810)	1,175
Dyledwyr Tymor Byr	37,408	0	0	0	0	0	0	0	(226)	37,182
Buddsoddiadau Tymor Byr	39,024	0	0	0	0	0	0	0	15,000	54,024
Arian a chyfwerthydd arian	21,583	0	0	0	0	0	0	0	(15,000)	6,583
Ymrwymadau Cyfredol										
Credydwyr Tymor Byr	(45,412)	0	0	6,062	0	(4,686)	(111)	0	380	(43,767)
Darpariaethau Tymor Byr	0	0	0	0	0	0	(57)	0	0	(57)
Derbyniadau Grantiau Cyfalaf o flaen llaw	0	0	0	(6,062)	0	0	0	0	0	(6,062)
Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio	(197)	0	0	197	0	0	0	0	0	0
Benthyciadau Tymor Byr	(6,444)	0	0	0	0	0	0	0	0	(6,444)
Cyfrif Asedau a roddwyd	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Gorddrafft Banc	(15,452)	0	0	0	0	0	0	0	0	(15,452)
Cyfanswm Asedau llai Ymrwymadau Cyfredol	584,181	0	0	197	878	(4,686)	(168)	0	154	580,556

Y FANTOLEN AR 31.03.10

	Datganiad o'r Cyfrifon 31.03.10	Ail- ddosbarthu Asedau	Asedau ar gael i'w Gwerthu	Ail- ddosbarthu Grantiau	Ail- ddosbarthu Prydlesau	Buddion Gweithwyr	Tymor Hir / Tymor Byr	Ail- ddosbarthu Reserfau	Addasiadau Eraill	Ail- ddatgan 31.03.10
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ymrwymadau Tymor Hir										
Credydwy'r Tymor Hir	(297)	0	0	0	0	0	0	0	0	(297)
Benthyciadau Tymor Hir	(132,143)	0	0	0	0	0	0	0	0	(132,143)
Darpariaethau	(3,176)	0	0	0	0	0	57	0	(154)	(3,273)
Grantiau Llywodraeth Gohiriedig	(140,797)	0	0	140,797	0	0	0	0	0	0
Credydwy'r Tymor Hir Eraill										
Ymrwymiad Pensiwn	(281,237)	0	0	0	0	0	0	0	0	(281,237)
Ymrwymadau Prydlesau Cyllidol	0	0	0	0	(248)	0	111	0	0	(137)
Cyfanswm Asedau I lai Ymrwymadau	26,531	0	0	140,994	630	(4,686)	0	0	0	163,469
Reserfau na ellir eu defnyddio										
Cyfrif Addasu Cyfalaf	(234,418)	0	0	(140,797)	(405)	0	0	0	0	(375,620)
Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol	1,124	0	0	0	0	0	0	0	0	1,124
Reserf Ail-datgan	(13,118)	0	0	0	(225)	0	0	0	0	(13,343)
Reserf Offerynnau Ariannol ar Gael i'w Gwerthu	(60)	0	0	0	0	0	0	0	0	(60)
Reserf Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy	(6,610)	0	0	0	0	0	0	6,610	0	0
Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig	(52)	0	0	0	0	0	0	0	0	(52)
Reserf Pensiynau	281,237	0	0	0	0	0	0	0	0	281,237
Cyfrif Absenoldeb Cronedig	0	0	0	0	0	4,686	0	0	0	4,686
Reserfau Defnyddiadwy										
Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy	0	0	0	0	0	0	0	(6,610)	0	(6,610)
Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio	0	0	0	(197)	0	0	0	0	0	(197)
Arian wrth gefn Ysgolion	(3,807)	0	0	0	0	0	0	0	0	(3,807)
Cronfeydd a Glustnodwyd	(40,603)	0	0	0	0	0	0	0	0	(40,603)
Cronfa Gyffredinol	(8,257)	0	0	0	0	0	0	0	0	(8,257)
Cronfa Gyffredinol - Cyfrif Refeniw Tai	(1,967)	0	0	0	0	0	0	0	0	(1,967)
	(26,531)	0	0	(140,994)	(630)	4,686	0	0	0	(163,469)

Y FANTOLEN AR 01.04.09

	Datganiad o'r Cyfrifon 01.04.09	Ail- ddosbarthu Asedau	Asedau ar gael i'w Gwerthu	Ail- ddosbarthu Grantiau	Ail- ddosbarthu Prydlesau	Buddion Gweithwyr	Tymor Hir / Tymor Byr	Ail- ddosbarthu Reserfau	Addasiadau Erail	Ail- ddatgan 01.04.09
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Eiddo, Offer a Chyfarpar										
Tai Cyngor	252,300	0	0	0	0	0	0	0	0	252,300
Tir ac Adeiladau Erail	148,598	28	0	0	225	0	0	0	0	148,851
Asedau Gweddilliol	0	120	0	0	0	0	0	0	0	120
Is-Adeiladwaith	113,991	0	0	0	0	0	0	0	0	113,991
Ceir, Dodrefn ac Offer	12,162	0	0	0	912	0	0	0	0	13,074
Asedau Cymunedol	652	65	0	0	0	0	0	0	0	717
Asedau heb eu cwblhau	9,242	0	0	0	0	0	0	0	0	9,242
Cyfanswm Eiddo, Offer a Chyfarpar	536,095	213	0	0	1,137	0	0	0	0	538,295
Eiddo Buddsoddi	1,244	(213)	0	0	0	0	0	0	0	1,031
Asedau gwarged i'w gwerthu	589	0	(589)	0	0	0	0	0	0	0
Buddsoddiadau Tymor Hir	3,090	0	0	0	0	0	0	0	0	3,090
Dyledwyr Tymor Hir	1,780	0	0	0	0	0	0	0	0	1,780
Cyfanswm Asedau Tymor Hir	543,648	0	(589)	0	1,137	0	0	0	0	544,196
Asedau Cyfredol										
Asedau ar gael i'w Gwerthu	0	0	0	0	0	0	0	0	589	589
Stoc	1,162	0	589	0	0	0	0	0	(589)	1,162
Dyledwyr Tymor Byr	33,214	0	0	0	0	0	0	0	(336)	32,878
Buddsoddiadau Tymor Byr	63,647	0	0	0	0	0	0	0	8,000	71,647
Arian a chyfwerthydd arian	9,771	0	0	0	0	0	0	0	(8,000)	1,771
Ymrwymadau Cyfredol										
Credydwyr Tymor Byr	(43,212)	0	0	7,228	0	(3,975)	(228)	0	380	(39,807)
Darpariaethau Tymor Byr	0	0	0	0	0	0	(591)	0	0	(591)
Derbyniadau Grantiau Cyfalaf o flaen llaw	0	0	0	(7,228)	0	0	0	0	0	(7,228)
Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio	(490)	0	0	490	0	0	0	0	0	0
Benthyciadau Tymor Byr	(1,468)	0	0	0	0	0	0	0	0	(1,468)
Cyfrif Asedau a roddwyd	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Gorddrafft Banc	(25,428)	0	0	0	0	0	0	0	0	(25,428)
Cyfanswm Asedau llai Ymrwymadau Cyfredol	580,844	0	0	490	1,137	(3,975)	(819)	0	44	577,721

Y FANTOLEN AR 01.04.09

	Datganiad o'r Cyfrifon 01.04.09	Ail- ddosbarthu Asedau	Asedau ar gael i'w Gwerthu	Ail- ddosbarthu Grantiau	Ail- ddosbarthu Prydlesau	Buddion Gweithwyr	Tymor Hir / Tymor Byr	Ail- ddosbarthu Reserfau	Addasiadau Eraill	Ail- ddatgan 01.04.09
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ymrwymadau Tymor Hir										
Credydwy'r Tymor Hir	(342)	0	0	0	0	0	0	0	0	(342)
Benthyciadau Tymor Hir	(137,533)	0	0	0	0	0	0	0	0	(137,533)
Darpariaethau	(3,713)	0	0	0	0	0	591	0	(44)	(3,166)
Grantiau Llywodraeth Gohiriedig	(124,791)	0	0	124,791	0	0	0	0	0	0
Credydwy'r Tymor Hir Eraill										
Ymrwymiad Pensiwn	(131,886)	0	0	0	0	0	0	0	0	(131,886)
Ymrwymadau Prydlesau Cyllidol	0	0	0	0	(476)	0	228	0	0	(248)
Cyfanswm Asedau I lai Ymrwymadau	182,579	0	0	125,281	661	(3,975)	0	0	0	304,546
Reserfau na ellir eu defnyddio										
Cyfrif Addasu Cyfalaf	(252,464)	0	0	(124,791)	(436)	0	0	0	0	(377,691)
Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol	1,166	0	0	0	0	0	0	0	0	1,166
Reserf Ail-datgan	(3,601)	0	0	0	(225)	0	0	0	0	(3,826)
Reserf Offerynnau Ariannol ar Gael i'w Gwerthu	(58)	0	0	0	0	0	0	0	0	(58)
Reserf Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy	(6,288)	0	0	0	0	0	0	6,288	0	0
Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig	(67)	0	0	0	0	0	0	0	0	(67)
Reserf Pensiynau	131,886	0	0	0	0	0	0	0	0	131,886
Cyfrif Absenoldeb Cronedig	0	0	0	0	0	3,975	0	0	0	3,975
Reserfau Defnyddiadwy										
Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy	0	0	0	0	0	0	0	(6,288)	0	(6,288)
Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio	0	0	0	(490)	0	0	0	0	0	(490)
Arian wrth gefn Ysgolion	(3,710)	0	0	0	0	0	0	0	0	(3,710)
Cronfeydd a Glustnodwyd	(38,277)	0	0	0	0	0	0	0	0	(38,277)
Cronfa Gyffredinol	(9,234)	0	0	0	0	0	0	0	0	(9,234)
Cronfa Gyffredinol - Cyfrif Refeniw Tai	(1,932)	0	0	0	0	0	0	0	0	(1,932)
	(182,579)	0	0	(125,281)	(661)	3,975	0	0	0	(304,546)

Y prif newidiadau i'r Cyfrifon o ganlyniad i fabwysiadu Côt sy'n seiliedig ar SAARh yw:

Cyfadfer Absenoldebau Cronedig Tymor Byr

Cyfeirir cronni digolledu absenoldebau tymor byr at pan mae gweithwyr, fel rhan o'i cytundeb cyflogaeth yn cronni hawl absenoldeb fel maent yn darparu gwasanaeth i'r cyngor. Y budd mwyaf arwyddocaol dan y pennawd hwn yw tâl gwyliau.

Mae gweithwyr yn cronni eu hawl i wyliau gyda tâl fel maent yn gweithio. Yn unol â'r Côt, mae'r gost o ddarparu gwyliau a buddion eraill angen cael ei adnabod pan mae gweithwyr yn rendro gwasanaeth a fydd yn cynyddu ei hawliau i ddigolledu absenoldebau yn y dyfodol. O ganlyniad, mae'n ofynnol i'r cyngor gronni unrhyw wyliau blynyddol enilledig ond heb ei gymeryd hyd at 31 Mawrth pob blwyddyn. O dan y driniaeth cyfrifeg cynt, doedd dim angen cronniad o'r fath.

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi rheoliadau sy'n golygu bod llywodraeth leol angen cronfa tâl gwyliau a buddion tebyg pan maent yn cael ei defnyddio, nid pa bryd mae'n ennill y budd. Mae'r symiau yn cael ei drosglwyddo i'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig tan mae'r buddion yn cael ei defnyddio.

Mae'r newid a wnaed i ddatganiad ariannol 2009/10 wedi eu hadlewyrchu yng ngholofn "Buddion Gweithwyr" y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Prydlesau

Yn unol â'r Côt, mae prydlesau eiddo yn cael eu cyfrifo fel prydles arwahan o dir ac adeiladau. Yn flaenorol, roedd pob prydles eiddo yn cael ei gyfrifo fel prydles unigol. Mae newid mewn triniaeth cyfrifeg mewn rhai achosion wedi deillio bod yr elfen tir neu adeiladau o'r brydles, yn cael ei gyfrifo fel prydles weithredol ble roedd cynt yn cael ei drin fel prydles gyllidol; neu brydles gyllidol ble roeddynt cynt yn brydles weithredol.

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi rheoliadau a chyfarwyddyd statudol ar gyfer cyfrifo prydlesau. O dan y rheoliadau hyn, ni fydd gwariant blynyddol yn y Gronfa Gyffredinol (ble mai'r Cyngor yw'r prydlesai) yn newid. Ble mai'r Cyngor yn brydleswr, mae'r rheoliadau yn caniatáu'r Cyngor i drin yr incwm gan y brydles gyffredol yn yr un ffordd a pan nad oedd y Cod yn bodoli.

Mae'r newidiadau a wnaed i ddatganiad ariannol 2009/10 wedi eu hadlewyrchu yng ngholofn "Prydlesau" y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Fantolen.

Grantiau Llywodraeth

Yn unol â'r Côt, mae grantiau a chyfraniadau i gynlluniau cyfalaf yn cael eu hadnabod fel incwm pan mae'r swm yn dderbyniadwy. Yn flaenorol, roedd grantiau yn cael eu dal yn y Cyfrif Grantiau Gohiriedig ac yn cael eu hadnabod dros fywyd yr ased roeddynt yn ariannu.

O ganlyniad i fabwysiadu'r polisi cyfrifeg sy'n ofynnol gan y Côt, mae'r cyfrifon wedi cael eu newid fel a ganlyn:

- Mae balans y Cyfrif Grantiau Llywodraeth Ohiriedig 31 Mawrth 2009 wedi ei drosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Fantolen agoriadol I Ebrill 2009.
- Roedd cyfraniadau o grantiau llywodraeth ohiriedig wedi eu hadnabod cynt fel incwm yn 2009/10; mae'r rhain wedi ei thynnu or Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y ffigyrau cymharol.
- Derbyniwyd grant yn 2009/10 na ddefnyddiwyd. Yn flaenorol, cafwyd dim incwm ei adnabod af gyfer y grant hwn, roedd yn cael ei ddangos yn y Cyfrif Grantiau heb eu Cymhwyso o fewn yr adran Credydwyd ar y Fantolen. Yn dilyn y newid mewn polisi cyfrifeg, mae'r grant wedi ei adnabod yn llawn, ac wedi ei drosglwyddo i'r Cyfrif Grantiau heb eu Cymhwyso o fewn yr adran Reserfau ar y Fantolen.

Dengys y newidiadau a wnaed i ddatganiad ariannol 2009/10 yn y Fantolen.

NODYN 3 – SAFONAU CYFRIFEG SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Ar gyfer 2010/11, yr unig newid mewn safonau cyfrifeg sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto yw FRS 30 *Asedau Treftadaeth*.

Asedau Treftadaeth

Mae'r ffaith bod y Côt yn mabwysiadu FRS 30 *Asedau Treftadaeth* yn golygu y bydd newid ym mholisi cyfrifo o 2011/12 ymlaen, ac y bydd *Asedau Treftadaeth* yn cael eu cydnabod fel dosbarth ar wahanol asedau am y tro cyntaf yn natganiadau ariannol 2011/12.

Nid yw datganiadau ariannol 2010/11 yn cynnwys unrhyw asedau y disgwylir iddynt gael eu ail-ddosbarthu'n asedau treftadaeth yn 2011/12, ac nid yw'r Awdurdod yn rhagweld y bydd effaith sylweddol ar ei ddatganiadau ariannol o ganlyniad i fabwysiadu FRS 30.

NODYN 4 - BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISIÂU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisiâu cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Awdurdod wedi gorfod gwneud penderfyniadau, amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch gwerth i'w gario yr asedau ac ymrwymadau, nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiol wedi eu selio ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill a sy'n cael eu ystyried yn berthnasol. Gall y gwir ganlyniadau amrywio yn sylweddol o'r canlyniadau a amcangyfrifon. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau gwaelodol wastad yn cael eu hadolygu.

NODYN 5- TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu amcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan yr Awdurdod am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Mae'r amcangyfrifon wedi eu seilio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol iawn i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Mae'r eitemau canlynol ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2011 yn rhai â ystyrir gyda risg sylweddol a allai arwain at gywiriadau arwyddocaol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

- **Eiddo, Offer a Chyfarpar** - Mae asedau yn cael eu dibrisio dros eu oes fuddiol yn unol ag arferion safonol cyfrifeg. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng y dibrisiant a gwir ddirywiad yr ased ei adlewyrchu ym mhatrymau gwariant y dyfodol. Mae gwybodaeth ynglŷn ag Eiddo, Offer a Chyfarpar wedi ei gynnwys yn Nodyn 14.
- **Darpariaethau** – Mae nifer o ddarpariaethau gwahanol, ble mae'r sail unigol wedi cael ei asesu, wedi eu cynnwys yn y cyfrifon, gweler Nodyn 22 am y manylion.
- **Ymrwymiad Pensiwn** - Mae sefyllfa'r Ymrwymiad Pensiwn a adlewyrchir yn y cyfrifon yn seiliedig ar nifer o asesiadau a dyfarniadau cymhleth yn unol â'r wybodaeth ddarparwyd gan Actwari'r Cyngor. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn Nodyn 40 a 41.
- **Amhariad Dyledion Drwg / Darpariaeth** - Mae lefel o amhariad o ddyledion drwg wedi ei gynnwys yn y cyfrifon sydd yn seiliedig ar bolisi penodol. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng lefel yr amhariad ddefnyddiwyd a'r gwir sefyllfa ôl-ddyledion ei adlewyrchu ym mhatrwm gwariant y dyfodol. Mae'r ffigwr amhariad dyledion drwg wedi ei gynnwys yn y ffigyrau Dyledwyr Tymor Byr yn Nodyn 18.

NODYN 6 – EITEMAU MATEROL O INCWM A GWARIANT

Cyfrif Refeniw Tai

Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu y dylai holl dai Cyngor yng Nghymru gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) erbyn 2012. Nid oedd digon o adnoddau gan y Cyngor i gyflawni'r SATC o fewn yr amserlen yma ac mae tenantiaid tai Cyngor Gwynedd wedi pleidleisio i drosglwyddo'r stoc tai i gyd i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (LCC), sydd wedi'i ffurfio at y pwrpas hwn. Trosglwyddodd y stoc tai i Gartrefi Cymunedol Gwynedd ar 12 Ebrill 2010. Mae effaith y trosglwyddiad i'w weld ar linell 'Cyfrif Refeniw Tai – Costau Eithriadol' o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, gyda'r wybodaeth fanwl i'w gefnogi ar dudalen 76 sef Nodyn 1 y Cyfrif Refeniw Tai.

NODYN 7 – DIGWYDDIADAU ÔL-FANTOLEN

Wedi dyddiad y fantolen, cyflwynwyd cais i Cyngor Gwynedd am Adolygiad Barnwrol o benderfyniad y Cyngor i osod ffioedd cartrefi gofal annibynnol ar gyfer y flwyddyn 2011-12. Nid yw'r goblygiadau ariannol, os bydd rhai, yn amlwg eto.

Fel amlinellwyd yn nodyn 41, mae'r penderfyniad i gynyddu pensiwn gwasanaethau cyhoeddus yn ôl Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na Mynegai Prisiau Manwerthu wedi ei gynnabod yn y cyfrifon hyn. Ar hyn o bryd, mae'r penderfyniad gerbron y llysoedd mewn trefniadau adolygu barnwrol. Mae'r Llywodraeth yn amddiffyn yr achos, ac felly ni addaswyd y cyfrifon hyn. Nid yw goblygiadau ariannol pe bai'r adolygiad yn dyfarnu yn erbyn y Llywodraeth wedi eu hasesu.

NODYN 8 – ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn yn unol â ymarferion cyfrifo priodol i'r adnoddau hynny a benodir gan ddarpariaethau statudol yn rhai sydd ar gael i'r Awdurdod i gwrdd â gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

2010-11	Reserfau Defnyddiadwy				
	Balans Cronfa Gyffredinol	Cyfrif Refeniw Tai	Reserf Derbyniadau Cyfalaf	Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio	Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf:					
<u>Gwrthdroi eitemau wedi eu debydu neu gredydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:</u>					
Dibrisiant ac amhariad asedau tymor hir	(22,606)	(466,930)			489,536
Grantiau cyfalaf a chyfraniadau wedi eu defnyddio	29,860	122		(1,020)	(28,962)
Gwariant refeniw wedi'w ariannu o gyfalaf drwy statud	(4,756)	(320)			5,076
Swm yr asedau tymor hir wedi eu hysgrifennu i ffwrdd wrth waredu neu gwerthu fel rhan o'r cynnydd/ golled wrth werthu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(590)	21			569
<u>Ychwanegu eitemau sydd heb eu debydu na credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</u>					
Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddi cyfalaf	5,639	8			(5,647)
Darpariaeth gwirfoddol ar gyfer ariannu buddsoddi cyfalaf	541				(541)
Gwariant cyfalaf wedi ei godi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol a balansau'r CRT	(289)	84			205
Addasiadau yn ymwneud â'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf:					
Trosglwyddo arian o waredu asedau wedi eu credydu fel rhan o elw/colled wrth waredu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(164)		(1,232)		1,396
Defnyddio'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd		14,118			(14,118)
Defnyddio'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf i ariannu ad-dalu dyled		217,374	2,723		(220,097)
Cyfraniad o'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf tuag at gostau gweinyddol gwaredu asedau tymor hir		(1)	1		
Ad-dalu dyled Prifswm			(80)		80
Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:					
Swm ble mae'r costau ariannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau ariannu priodoladwy am y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol	131				(131)
Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:					
Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 41)	30,302	(22)			(30,280)
Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiwnwyr sydd yn daladwy yn yn flwyddyn	17,417	23			(17,440)
Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig					
Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail cronïadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	1,005	1			(1,006)
Cyfanswm Addasiadau	56,490	(235,522)	1,412	(1,020)	(178,640)

2009-10	Reserfau Defnyddiadwy				
	Balans Cronfa Gyffredinol	Cyfrif Refeniw Tai	Reserf Derbyniadau Cyfalaf	Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio	Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf:					
<u>Gwrthdroi eitemau wedi eu debydu neu gredydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:</u>					
Dibrisiant ac amhariad asedau tymor hir	(21,677)	(13,479)			35,156
Grantiau cyfalaf a chyfraniadau wedi eu defnyddio	24,190			293	(24,483)
Gwariant refeniw wedi'i wariannu o gyfalaf drwy statud	(5,844)	(6)			5,850
Swm yr asedau tymor hir wedi eu hysgrifennu i ffwrdd wrth waredu neu gwerthu fel rhan o'r cynnydd/ golled wrth werthu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	287				(287)
<u>Ychwanegu eitemau sydd heb eu debydu na credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</u>					
Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddi cyfalaf	5,898	295			(6,193)
Darpariaeth gwirfoddol ar gyfer ariannu buddsoddi cyfalaf	317				(317)
Gwariant cyfalaf wedi ei godi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol a balansau'r CRT	4,921	2,183			(7,104)
Addasiadau yn ymwneud â'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf:					
Trosglwyddo arian o waredu asedau wedi eu credydu fel rhan o elw/colled wrth waredu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	50	(45)	(322)		317
Defnyddio'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd					
Defnyddio'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf i ariannu ad-dalu dyled					
Cyfraniad o'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf tuag at gostau gweinyddol gwaredu asedau tymor hir					
Ad-dalu dyled Prifswm					
Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:					
Swm ble mae'r costau ariannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau ariannu priodoladwy am y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol	35	7			(42)
Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:					
Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu neu credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 41)	(285)	294			(9)
Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiwnwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn					
Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig					
Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(711)				711
Cyfanswm Addasiadau	7,181	(10,751)	(322)	293	3,599

NODYN 9 – TROSGLWYDDIAD I/O RESERFAU A GLUSTNODWYD

Balansau Ysgolion

Cynrychiolai'r swm yma yr elfen o falansau a ryddhawyd o dan ddatganoli cyllideb yn uniongyrchol i'r ysgolion ond sydd heb eu gwario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol:

2010-11	Balans	Trosglwyddiadau			Balans
	31 Mawrth 2010 £'000	rhwng cronfeydd £'000	mewn £'000	allan £'000	31 Mawrth 2011 £'000
Balansau Ysgolion	3,807	0	1,176	(497)	4,486
Cyfanswm	3,807	0	1,176	(497)	4,486

2009-10	Balans	Trosglwyddiadau			Balans
	1 Ebrill 2009 £'000	rhwng cronfeydd £'000	mewn £'000	allan £'000	31 Mawrth 2010 £'000
Balansau Ysgolion	3,710	(151)	965	(717)	3,807
Cyfanswm	3,710	(151)	965	(717)	3,807

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r symiau neilltuwyd o falansau'r Gronfa Gyffredinol a'r mewn reserfau a glustnodwyd er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol, a'r symiau hynny drosglwyddwyd nôl o'r reserfau a glustnodwyd i gwrdd â gwariant y Gronfa Gyffredinol yn 2010/11.

Reserfau a Glustnodwyd

2010-11	Balans	Trosglwyddiadau			Balans
	31	rhwng cronfeydd	mewn	allan	31
	Mawrth				Mawrth
	2010	2011			
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	
Reserfau Adnewyddu	1,573	(352)	2,273	(972)	2,522
Reserfau Cyfalaf	9,902	(554)	5,872	(205)	15,015
Reserfau Yswiriant	3,129	0	555	(317)	3,367
Cronfa Gwasanaethau	7,530	(597)	2,559	(2,837)	6,655
Cronfa Amcan I	199	0	84	(10)	273
Cronfa Rhaglen Cydgyfeiriant	0	680	500	0	1,180
Reserf Datblygiadau	435	0	40	(157)	318
Cronfa Costau Diswyddo i Wireddu Arbedion	2,396	0	1,107	(622)	2,881
Cronfa Rhwydwaith	450	0	9	(459)	0
Cronfa Gwella'r Cyngor	694	0	0	(245)	449
Hyfforddiant Canolog	891	0	2	(259)	634
Reserf Canolfan Gyswilt	1,054	0	0	(288)	766
Reserfau Gwasanaethau Ysgolion	270	0	358	(76)	552
Reserfau Economi a Chymuned	290	0	14	(17)	287
Reserfau Priffyrdd a Bwrdeistrefol	1,451	352	337	0	2,140
Reserf Datblygiadau Gwastraff	1,094	(37)	0	(217)	840
Reserfau Ymgynghoriaeth Gwynedd	448	0	0	(263)	185
Reserfau Rheoleiddio	764	0	21	(9)	776
Reserf Rheoli Cefnffyrdd	400	0	0	(400)	0
Cronfa Gweithiau Cynnal Mawr ar Ffyrdd Sirol	0	0	200	0	200
Reserfau Eraill Gofal	53	0	9	0	62
Cronfa Trawsnewid Busnes	3,658	(3,398)	0	0	260
Gweithgor Aelodau (Reserfau)	1,034	(1,034)	0	0	0
Cronfa Buddsoddi i Arbed	0	1,034	0	0	1,034
Cronfa Buddsoddi i Arbed - Prosiect Rheoli Carbon	2,500	0	0	(117)	2,383
Cronfa Trawsffurfio	0	3,335	1,104	(161)	4,278
Cronfa Grantiau Refeniw wedi eu ymrwymo	0	0	267	0	267
Cronfa Cyfalaf i wireddu arbedion	0	500	0	(14)	486
Reserf Tendro Contractau	0	0	341	(46)	295
Cronfa Gwasanaethau Dwr a Carffosiaeth Tai	0	0	1,600	(20)	1,580
Gwarant Amgylcheddol Tai	0	0	480	0	480
Amrywiol Reserfau Eraill	389	71	264	(99)	625
Cyfanswm	40,604	0	17,996	(7,810)	50,790

2009-10	Balans	Trosoglwyddiadau			Balans
	I	rhwng	mewn	allan	31
	Ebrill	cronfeydd			Mawrth
	2009				2010
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Reserfau Adnewyddu	3,258	(1,600)	2,335	(2,420)	1,573
Reserfau Cyfalaf	8,361	0	1,784	(243)	9,902
Reserfau Yswiriant	4,239	(1,500)	901	(511)	3,129
Cronfa Gwasanaethau	11,272	(3,726)	3,267	(3,283)	7,530
Cronfa Amcan I	327	0	0	(128)	199
Reserf Datblygiadau	420	11	40	(36)	435
Reserf Cyllido Strategol	1,823	149	1,637	(1,213)	2,396
Cronfa Rhwydwaith	459	0	0	(9)	450
Cronfa Gwella'r Cyngor	344	772	121	(543)	694
Hyfforddiant Canolog	1,116	0	0	(225)	891
Reserf Canolfan Gyswilt	1,325	0	0	(271)	1,054
Reserfau Gwasanaethau Ysgolion	508	151	150	(539)	270
Reserfau Economi a Chymuned	205	0	120	(35)	290
Reserfau Prifffyrdd a Bwrdeistrefol	1,671	9	200	(429)	1,451
Reserf Datblygiadau Gwastraff	367	0	1,546	(819)	1,094
Reserfau Ymgynghoriaeth Gwynedd	434	0	14	0	448
Reserfau Rheoleiddio	799	9	30	(74)	764
Reserf Rheoli Cefnffyrdd	600	0	0	(200)	400
Reserf Gwasanaethau Cymdeithasol	17	0	0	(17)	0
Reserfau Eraill Gofal	171	(152)	34	0	53
Cronfa Trawsnewid Busnes	100	2,500	1,092	(34)	3,658
Gweithgor Aelodau (Reserfau)	0	1,034	0	0	1,034
Cronfa Buddsoddi i Arbed - Prosiect Rheoli Carbon	0	2,500	0	0	2,500
Amrywiol Reserfau Eraill	463	(6)	83	(151)	389
Cyfanswm	38,279	151	13,354	(11,180)	40,604

Nodir isod fanylion o brif reserfau penodol y Cyngor.

(294)	Addasiadau yn ymwneud a'r Reserf Pensiynau	(1)
(1)	Addasiadau yn ymwneud a'r Cyfrif Absenoldebau Cronus	(1)
6,651	Cyfanswm	235,522

Y GRONFA DEGWM

2009-10		2010-11	
£'000		£'000	£'000
521.0	Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill		515.4
(2.7)	Newid yng ngwerth y buddsoddiadau ar y farchnad		0
	Ychwanegir - Incwm yn ystod y flwyddyn :-		
15.7	Llog ar fuddsoddiadau	13.9	
0	Elw ar fuddsoddiadau a werthwyd	0.1	
0.6	Rhenti a thaliadau blynyddol	0.6	
16.3			14.6
	Llai - Gwariant yn ystod y flwyddyn :-		
(5.3)	Colled ar fuddsoddiadau a werthwyd	(0.8)	
(13.9)	Grantiau a chostau	(14.7)	
			(15.5)
515.4	Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth		514.5
	A chynrychioli'r gan yr Asedau canlynol:-		
26.1	Tir ac Adeiladau		26.1
434.7	Buddsoddiadau ar Gwerth y Farchnad		432.2
23.5	Dyledwyr		14.0
687.0	Arian mewn Llaw		694.6
1,171.3			1,166.9
(627.6)	Llai - Efen yn ddyledus i Gyngorau Môn a Chonwy		(624.4)
543.7			542.5
(48.9)	Llai - Credydwyr		(45.9)
	Ychwanegir - Efen yn ddyledus gan Gyngorau Môn a Chonwy		
20.6			17.9
515.4	Cyfanswm		514.5

NODIADAU I'R CYFRIFON

1. Dywed Cynllun gweinyddu'r Gronfa y ceir defnyddio'r incwm at bwrpasau elusennol - addysgol, cymdeithasol neu adloniadol, yn ôl ewyllys y Cyngor.
2. Mae'r Ddeddf Elusennol 1993 yn gofyn am archwiliad annibynnol o ddatganiad o gyfrifon y Gronfa Degwm yn flynyddol.

CRONFA YMDDIRIEDOLAETH FMG MORGAN

2009-10 £'000		2010-11 £'000
128.4	Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill	131.2
6.6	Ychwaneger - Incwm yn ystod y flwyddyn Llog enillwyd gan yr asedau	4.9
(3.8)	Llai - Gwariant yn ystod y flwyddyn Grantiau	(1.3)
131.2	Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth	134.8
	Asedau	
24.5	Buddsoddiadau	24.5
106.7	Arian mewn Llaw	110.3
131.2		134.8

NODIADAU I'R CYFRIFON

1. Sefydlwyd y gronfa hon gyda gweddill ystâd y diweddar Mrs Florence Merthyr Guest Morgan. Roedd incwm y Gronfa i'w ddefnyddio er budd trigolion rhannau o Lŷn at bwrpasau penodedig.
2. Dangosir buddsoddiadau ar gost yn y cyfrifon. Gwerth y buddsoddiadau ar y farchnad ar 31 Mawrth 2011 oedd £169,057 (£150,982 ar 31 Mawrth 2010).
3. Mae'r Gronfa FMG Morgan tu allan i ofynion y Ddeddf Elusennol 1993. Oherwydd hyn nid oes angen archwiliad annibynnol o'r Gronfa Ymddiriedolaeth hon.

CYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD 2010/11

2010 £'000	Cyfrifon y Gronfa Bensiwn am y Flwyddyn sy'n Diweddu 31 Mawrth	2011 £'000
	Cyfraniadau -	
13,813	Gweithwyr - Staff	14,287
35	- Aelodau	36
45,388	Cyflogwyr - Staff	46,033
121	- Aelodau	125
0	- Ariannu Diffyg	4
60	Llog ar Gyfraniadau Gohiriedig	49
2	Incwm ar Gyfrifo Ysgariad	1
5,447	Trosglwyddiadau o Gynlluniau Eraill	1,440
279	Prynu Gwasanaeth Ychwanegol a.y.y.b.	194
65,145	Cyfanswm Cyfraniadau Dderbyniwyd	62,169
	Buddion Taladwy -	
(26,029)	Pensiynau	(27,177)
(6,658)	Lwmp Swm	(10,198)
(437)	Budd-daliadau ar Farwolaeth	(945)
(14)	Ymadawiadau	(26)
(4,645)	Trosglwyddiadau i Gynlluniau Eraill	(2,635)
(907)	Costau Gweinyddol (Nodyn 9)	(1,061)
(38,690)	Cyfanswm Buddion Dalwyd	(42,042)
26,455	Ychwanegiadau Net o Ddelio gydag Aelodau	20,127
2010 £'000	Enillion / (Colledion) Net ar Fuddsoddiadau fel ar 31 Mawrth	2011 £'000
5,105	Incwm Buddsoddi (Nodyn 5)	6,745
242,615	Newid yng Ngwerth Buddsoddiadau ar y Farchnad	70,763
(2,777)	Costau Rheoli Buddsoddiadau (Nodyn 10)	(3,247)
244,943	Enillion/(Colledion) Net ar Fuddsoddiadau	74,261
2010 £'000	Cynnydd / (Gostyngiad) Net yn y Gronfa Yn Ystod y Flwyddyn	2011 £'000
26,455	Ychwanegiadau Net o Ddelio gydag Aelodau	20,127
244,943	Enillion/(Colledion) Net ar Fuddsoddiadau	74,261
271,398	Cynnydd/(Gostyngiad) Net yn y Gronfa Yn Ystod y Flwyddyn	94,388
2010 £'000	Asedau Net y Gronfa	2011 £'000
657,992	Ar 1af Ebrill	929,390
271,398	Cynnydd/(Gostyngiad) Net yn y Gronfa Yn Ystod y Flwyddyn	94,388
929,390	Fel ar 31 Mawrth	1,023,778

2009 £'000	2010 £'000	Datganiad o Asedion Net fel ar 31 Mawrth	2011 £'000
		Buddsoddiadau yn ôl eu Gwerth ar y Farchnad (Nodyn 4)	
		Llog Sefydlog:	
10,677	0	Sector Gyhoeddus y DU a Ddyfynnir	0
50,375	0	Arall y DU a Ddyfynnir	0
0	129,351	Dychweliad Absoliwt	141,937
		Mynegai Cysylltiol:	
32,439	0	Mynegai Cysylltiol y DU	0
		Cyfranddaliadau:	
8,967	18,069	Y DU a Ddyfynnir	15,152
84,211	125,891	Tramor a Ddyfynnir	141,265
1,088	311	Tramor heb eu Dyfynnu	569
32,102	35,026	Ecwiti Preifat	50,967
		Offerynnau Buddsoddi Cydgyfrannog:	
170,505	234,198	Ymddiriedolaethau Uned y DU a Ddyfynnir	264,246
2	1	Mentrau'r DU heb eu Dyfynnu	1
169,545	135,913	Ymddiriedolaethau Uned Tramor	132,270
6,953	0	Cronfeydd Rheoledig Tramor	0
0	154,130	Ymddiriedolaethau Uned Byd Eang (sy'n cynnwys y DU)	166,179
52,771	71,089	Ymddiriedolaethau Uned Eiddo	89,207
		Contractau Deilliad	
4,015	3,508	Ased Deilliad	3,453
(4,168)	(3,506)	Diffyg Deilliad	(3,625)
		Arall:	
33,517	13,439	Arian Parod a Buddsoddiadau Dros Dro	19,411
519	136,167	Dyledwyr – Gwerthiannau Buddsoddiadau yn Disgwyl Setliad	640
6,182	7,471	Dyledwyr Amrywiol (Nodyn 11)	5,630
(869)	(130,769)	Credydwyr – Pryniannau Buddsoddiadau yn Disgwyl Setliad	(404)
(839)	(899)	Credydwyr Amrywiol (Nodyn 12)	(3,120)
657,992	929,390	Asedion Net fel ar 31 Mawrth	1,023,778

Nid yw'r Datganiadau Cyllidol hyn yn cynnwys ymrwymiad y Gronfa i dalu pensiynau a budd-daliadau eraill i holl gyfranwyr presennol y Gronfa ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, ond yn hytrach mae'n crynhoi trafodion ac asedau net y Gronfa. Ystyrir ymrwymadau'r Gronfa ym mhriadau cyfnodol yr actiwari o'r Gronfa (y mwyaf diweddar ar 31 Mawrth 2010 a'r nesaf ar 31 Mawrth 2013) ac fe'u hadlewyrchir yn lefelau cyfraniadau'r cyflogwyr a bennir gan y prisiad hwn, fel bydd y Gronfa eto yn gallu cwrdd â 100% o ymrwymadau'r dyfodol. Dangosir y gwerth presennol actiwariaidd ar gyfer buddiannau a addawir yn Nodyn 3.

NODIADAU I GYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD

NODYN 1 - CYFFREDINOL

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn gronfa statudol sydd yn darparu pensiynau ar gyfer y cyfranwyr. Mae aelodaeth o'r gronfa ar gael i holl weithwyr llywodraeth leol yn cynnwys staff mewn ysgolion a chorfforaethau addysg bellach yng Ngwynedd sydd ddim yn athrawon, yn ogystal â gweithwyr o gyrff a ganiatawyd. Mae'r cyrff cyflogi sy'n ymuno â'r cynllun naill ai'n "gyrff ar yr Atodlen", sef awdurdodau lleol neu gyrff cyhoeddus eraill a fo'n naturiol a'r hawl i ymuno, neu "gyrff a ganiateir" y caniatâ'r awdurdod gweinyddol iddynt ymuno, neu ddarparwyr allanol sy'n dewis ymuno â'r cynllun o dan gytundeb allanoli o dan Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gwelliant a.y.b.) 1999. Rhestrir isod y "gyrff ar yr Atodlen" a'r "gyrff a ganiateir" sy'n cyfrannu i'r Gronfa:-

Cyrff ar yr Atodlen

Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru
Cyngor Tref Caernarfon
Cyngor Tref Porthaethwy
Cyngor Dinas Bangor
Cyngor Tref Llangefni
Cyngor Tref Biwmares
Cyngor Tref Caerdybi
Cyngor Tref Llandudno
Coleg Meirion Dwyfor
Coleg Menai
Parc Cenedlaethol Eryri
Coleg Llandrillo
Ysgol Emrys ap Iwan
Ysgol Uwchradd Eirias
Ysgol Bryn Eilian
Ysgol Pen y Bryn
Cyngor Tref Tywyn
Cyngor Cymuned Llanllyfni
Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel
Cyngor Tref Abergele
Cyngor Tref Bae Colwyn
Cyngor Tref Ffestiniog

Cyrff a Ganiateir

Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru
Cydbwyllgor Claddu Caerdybi
CAG Coleg Harlech
Gyrfa Cymru Gogledd Orllewin
Cwmni Cynnal
Cwmni'r Fran Wen
Theatr Harlech (tan mis Rhagfyr 2010)
Theatr Gwynedd (tan mis Hydref 2008)
Gwasanaeth Gwirfoddol Conwy
Medrwn Môn
Mantell Gwynedd
Canolfan Cyngori Ynys Môn
Menter Môn
Canolfan Cyngori Conwy
CAIS
Eden Foods
Cartrefi Conwy
Cartrefi Cymunedol Gwynedd

Mae gweithwyr yn cyfrannu canran sefydlog o'u cyflog a rhydd y cyflogwyr hefyd gyfraniad i gadw'r Gronfa yn ddiddyled. Pennir y swm hwn bob tair blynedd yn dilyn prisiad Actiwari o werth y Gronfa (gweler Nodyn 3).

Rhaid buddsoddi unrhyw arian nad oes ei angen i wneud taliadau o'r Gronfa yn y tymor byr. Y nod wrth fuddsoddi'r arian yw cael yr elw mwyaf posibl i'r Gronfa, a thrwy hynny ostwng y cyfraniad sy'n ofynnol gan y cyflogwyr.

NODYN 2 - POLISIÄU CYFRIFEG

Paratowyd y cyfrifon i gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997, Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 1998 (fel ei newidiwyd), ac i gydymffurfio â gofynion y Datganiad Ymarfer Argymelledig Rhif I Pwyllgor Safonau Cyfrifeg cyrff cyfrifeg Broffesiynol y Deyrnas Unedig. Maent yn dilyn argymhellion y Datganiad Ymarfer Argymelledig "Adroddiadau Cyllidol Cronfeydd Pensiwn" (fel a'i hadolygwyd ym Mai 2007).

Dangosir yr holl Gyfraniadau, Incwm o Fuddsoddiadau a Budd-daliadau sy'n Daladwy ar sail croniant lle penderfynir y symiau ar adeg cau'r cyfrifon. Dangosir gwerthoedd trosglwyddo i mewn ac allan o

gynlluniau eraill ar sail derbyniadau a thaliadau.

Mae gwerth stociau wedi cael eu prasio ar bris bid y farchnad ar gau 31 Mawrth 2011. Rhoddir gwerth ar Arian Tramor a Buddsoddiadau Tramor a ddalwyd ar 31 Mawrth 2011 yn ôl y gyfradd cyfnewid gyfredol ar amser cau busnes y diwrnod hwnnw. Mae gwerth yr Ymddiriedolaethau Uned â'r holl fuddsoddiadau eraill wedi cael eu cymryd ar bris bid y farchnad ar gau neu ar bris unigol diweddaraf y farchnad ar 31 Mawrth 2011. Mae deilliadau wedi eu prasio ar eu gwerth teg fel ar 31 Mawrth 2011. Wrth ddal deilliadau, nod y gronfa yw lleihau'r risg yn y portffolio. Mae'r contractau blaengyfnawid arian tramor sy'n cael eu dal gan y Gronfa yn cael eu defnyddio i warchod y Gronfa yn erbyn symudiadau mewn arian tramor.

NODYN 3 - SEFYLLFA ACTIWARIAID

Ar Fawrth 31ain, 2010 y cafodd y Gronfa ei phrisio diwethaf (ar Fawrth 31ain, 2007 cyn hynny), ac mae angen i'r Gronfa fod yn ddigonol i gwrdd â'i hymrwymiaidau.

Y dull actiwariaid a ddefnyddiwyd yn y Prisant oedd y "Dull Uned Amcanol" a'r rhagdybiaethau ariannol a fabwysiadwyd adeg prasio oedd:-

	% y flwyddyn
Elw ar Fuddsoddiadau	
Cyfranddaliadau	6.25%
Bondiau	4.75%
75% Cyfranddaliadau / 25% Bondiau	5.9%
Codiadau Cyflog (heb gynnwys incrementau)*	5.3%
Chwyddiant / Codiadau Pensiwn	3.3%

* 1% ar gyfer 2010/11 a 2011/12, dychwelyd i 5.3% wedyn

Prif amcan cyllido'r Gronfa ydi gofalu bod asedau'r Gronfa yn ddigonol ar gyfer talu buddion aelodau fel y maent yn cronni. Pan fydd asedau'r Gronfa yn hafal i'w hymrwymiaidau, yna dywedir bod lefel gyllido'r Gronfa yn 100%.

Mae prisant Mawrth 31ain, 2010, yn dangos yr un lefel hydaledd y Gronfa, fel a fu yn y prisant cynt. Ar ddyddiad y Prisant roedd gwerth asedau'r Gronfa ar y farchnad yn £930 miliwn tra bod gwerth eu hymrwymiaidau yn £1,114 miliwn. Dengys y prisant bod diffyg y gronfa yn uwch na'i asedau o £184 miliwn, a bod lefel gyllido'r Gronfa yn 84%.

Roedd gwerth presennol actiwariaidd ar gyfer buddiannau a addawir ar 31 Mawrth 2011 yn £1,197m (£1,289m ar 31 Mawrth 2010). Mae'r holl fuddiannau wedi eu breinio. Rhwymedigaeth buddiannau a diffinnir o dan IAS19 yw'r gwerth hon a defnyddiwyd y prisant actiwariaid ar 31 Mawrth 2010 a'r tybiaethau o'r adroddiadau IAS19 a FRS17 i'r cyflogwyr unigol y Gronfa Bensiwn er mwyn cyfrifo'r swm. Dangosir y tybiaethau o dan Nodyn 41 o'r Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Craidd.

Mae'r wybodaeth yn y nodyn hwn wedi ei seilio ar y penderfyniad i gynyddu pensiwn gwasanaethau cyhoeddus yn ôl Mynegai Pris Defnyddwyr yn hytrach na Mynegai Pris Manwerthu. Ar hyn o bryd, mae'r penderfyniad gerbron y llysoedd mewn trefniadau adolygu barnwrol. Mae'r Llywodraeth yn amddiffyn yr achos, ac felly ni addaswyd y nodyn hwn. Nid yw goblygiadau ariannol pe bai'r adolygiad yn dyfarnu yn erbyn y Llywodraeth wedi eu hasesu. Mae'r mater hon wedi cael ei adnabod fel Digwyddiad Ôl-fantolen fel y disgrifir yn Nodyn 7 o'r Nodiadau i'r Cyfrifon.

NODYN 4 - GWERTH MARCHNAD Y BUDDSODDIADAU

Isod rhoddir gwerth marchnad yr asedau fel ar Fawrth 31ain, 2011:-

	Swm £'000	Black Rock %	Capital %	Fidelity %	Lothbury %	Partners %	UBS %	Insight %	*Gwy %	Swm %
Llog Sefydlog										
Dychweliad Absoliwt	141,937	-	-	-	-	-	-	100.00	-	100.00
Cyfranddaliadau:										
Y DU a Ddyfynnir	15,152	-	100.00	-	-	-	-	-	-	100.00
Tramor a Ddyfynnir	141,265	-	100.00	-	-	-	-	-	-	100.00
Tramor heb eu Dyfynnu	569	-	100.00	-	-	-	-	-	-	100.00
Ecwiti Preifat	50,967	-	-	-	-	100.00	-	-	-	100.00
Offerynnau Buddsoddi Cydgyfrannog:										
Ymddiriedolaethau Uned y DU a Ddyfynnir	264,246	100.00	-	-	-	-	-	-	-	100.00
Mentrau'r DU heb eu Dyfynnu	1	-	-	-	-	-	100.00	-	-	100.00
Ymddiriedolaethau Uned Tamor	132,270	56.30	24.41	19.29	-	-	-	-	-	100.00
Ymddiriedolaethau Uned Byd Eang (sy'n cynnwys y DU)	166,179	-	-	100.00	-	-	-	-	-	100.00
Ymddiriedolaethau Uned Eiddo	89,207	6.71	-	-	20.98	-	72.31	-	-	100.00
Contractau Deilliad										
Ased Deilliad	3,453	-	-	-	-	-	100.00	-	-	100.00
Diffyg Deilliad	(3,625)	-	-	-	-	-	(100.00)	-	-	100.00
Arian Parod â Chyfalaf Gweithiol	22,157	-	33.41	-	-	-	12.90	0.02	53.67	100.00
Cyfanswm	1,023,778	33.67	19.21	18.72	1.83	4.98	6.56	13.87	1.16	100.00

* Gwy - Gwynedd

NODYN 5 – INCWM BUDDSODDI

Rhoddir isod ddadansoddiad o Incwm Buddsoddi a amlinellir yn y Datganiad Asedau Net:-

2009/10		2010/11
£'000		£'000
432	Cyfranddaliadau'r DU	605
2,554	Cyfranddaliadau Tamor	3,115
15	Ecwiti Preifat	113
2,036	Ymddiriedolaethau Uned Eiddo	2,945
369	Llog ar Falansau Arian Parod	153
(301)	Llai Treth ar Incwm	(186)
5,105	Cyfanswm	6,745

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd dri chyfrif banc sy'n cael eu dal fel rhan o Grwp o Gyfrifon Banc Cyngor Gwynedd. Mae'r arian dros ben sy'n cael ei ddal yn y Grwp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi yn ddyddiol. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn, sy'n seiliedig ar falansau dyddiol y Gronfa yn ystod y flwyddyn.

Mae gan y Cyngor adnau o £4m gyda Heritable Bank, ond fe aeth y banc i weinyddiad ym mis Hydref 2008. Roedd yr amhariad ar y buddsoddiad yma i'r Gronfa Bensiwn yn £178,094 yn 2008/09 ac yn ystod 2009/10 bu lleihad yn yr amhariad yma o £54,814. Yn ystod 2010/11 roedd lleihad pellach yn yr amhariad o £13,248. Cynhwysir yr amhariad yn y Llog ar Falansau Arian Parod uchod. Ceir mwy o fanylion yn Nodyn 16 o'r Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Craidd.

NODYN 6 – CYFRANIADAU DERBYNIADWY

Isod rhoddir dadansoddiad o'r holl gyfraniadau derbyniadwy gan y gwahanol gyrff:-

2009/10		2010/11
£'000		£'000
22,361	Cyngor Gwynedd	20,766
34,164	Cyrff ar yr Atodlen	35,897
3,023	Cyrff a Ganiateir	4,007
88	Cyflogwyr heb Gyfranwyr	0
0	Cronfa Gaeedig*	9
59,636	Cyfanswm	60,679

*Cronfa Gaeedig - Mae'r rhain yn gyfraniadau a dderbyniwyd gan Theatr Harlech a Theatr Gwynedd yn ystod y flwyddyn. Roeddynt yn gyrff a ganiateir ond maent bellach yn gronfeydd caeedig.

**Yn ystod 2010/11 trosglwyddodd Cyngor Gwynedd y Tai Cyngor i Gartrefi Cymunedol Gwynedd gyda'r canlyniad bod y cyfraniadau gan Gyngor Gwynedd Council wedi lleihau a'r cyfraniadau gan y Cyrff a Ganiateir wedi codi.

NODYN 7 – BUDDION TALADWY

Isod rhoddir dadansoddiad o'r budd-daliadau taladwy i wahanol gyrff:-

2009/10		2010/11
£'000		£'000
8,491	Cyngor Gwynedd	9,707
11,976	Cyrff ar yr Atodlen	15,838
847	Cyrff a Ganiateir	1,198
514	Cyflogwyr heb Gyfranwyr	583
11,296	Cronfa Gaeedig	10,994
33,124	Cyfanswm	38,320

NODYN 8 – TRETH

Yn dilyn Cyllideb 1997, nid yw'r Gronfa yn awr yn gallu adennill Blaen-Dreth Gorfforaethol, ond fe ellir adennill unrhyw dreth DU ar ddfidend a delir gan gwmnïau tramor. Felly mae'r incwm buddsoddi yn y cyfrifon yn cael eu dangos yn net o dreth DU.

Mae'r Gronfa wedi eu heithrio o dreth atal Unol Daliaethau America ar ddfidendau o fuddsoddiadau yn yr UDA ac yn adennill treth atal a dynnir yn rhai o wledydd Ewrop.

NODYN 9 – COSTAU GWEINYDDOL

Mae'r costau gweinyddol fel a ganlyn:-

2009/10		2010/11
£'000		£'000
820	Gweinyddu a Phrosesu*	950
61	Ffioedd Actiwariaid	85
25	Ffioedd Archwilio	25
1	Ffioedd Proffesiynol	1
907	Cyfanswm	1,061

*Gwnaed dyraniad i'r Gronfa o gyflogau a threuliau eraill staff y Cyngor sy'n gweithio ar weinyddu'r cynllun pensiwn a buddsoddiadau pensiwn.

Mae'r taliadau am wasanaethau a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn seiliedig ar gyfuniad o brisiau a bennir ymlaen llaw, amser y staff a gofnodir, cofnodi trafodion a fformiwlâu penodedig. Rhennir costau swyddfeydd yn ôl arwynebedd y lloiau.

Roedd y costau gweinyddol a dalwyd i Gyngor Gwynedd yn 2010/11 yn £906,391 (2009/10: £783,870).

NODYN 10 – COSTAU RHEOLI BUDDSODDIADAU

Mae costau rheoli buddsoddiadau'r Gronfa fel â ganlyn:-

2009/10		2010/11
£'000		£'000
225	BlackRock	197
581	Capital International	610
300	Fidelity*	426
0	Insight**	599
140	Legal & General***	25
806	Partners Group	938
549	UBS Global Asset Management	344
1	JPMorgan	1
40	Cwmni'r Northern Trust	40
122	Hymans Robertson	54
13	Cwmni'r WM	13
2,777	Cyfanswm	3,247

*Cychwynnodd Fidelity ar eu gwaith ym mis Mehefin 2009.

** Cychwynoedd Insight ar eu gwaith ym mis Ebrill 2010.

*** Gorffennodd Legal & General ar eu gwaith ym mis Mai 2010.

NODYN 11 – DYLEDWYR AMRYWIOL

Mae darpariaeth wedi ei wneud yn y cyfrifon ar gyfer dyledwyr, fel a ganlyn:-

2008/09	2009/10		2010/11
£'000	£'000		£'000
4,396	5,464	Cyfraniadau i'w Derbyn	3,897
542	695	Dyledwyr Mewnol	171
270	288	Biliau Dyledwyr	307
535	551	Incwm Difidend Net yn Ddyledus	790
437	470	Treth y DU	236
2	3	TAW	2
6,182	7,471	Cyfanswm	5,403

NODYN 12 – CREDYDWYR AMRYWIOL

Mae darpariaeth wedi ei wneud yn y cyfrifon ar gyfer credydwyr, fel a ganlyn:-

2008/09	2009/10		2010/11
£'000	£'000		£'000
276	107	Credydwyr Mewnol	1,017
214	297	Ffioedd Buddsoddi	417
0	0	Ffioedd Cyfreithiol	6
20	15	Ffioedd Archwilio	14
97	0	Treth y DU	0
3	3	Cyfraniadau Taladwy	2
229	477	Buddion Dyledus	1,664
839	899	Cyfanswm	3,120

NODYN 13 – GWERTHIANT A PHRYNIANT BUDDSODDIADAU

Mae cyfanswm o werthiant â phryniant buddsoddiadau yn cael eu hamlinellu isod:-

	Pryniant (Gwerth Llyfr) 2010/11 £'000	Gwerthiant 2010/11 £'000
Cyfranddaliadau'r DU	228,931	225,205
Cyfranddaliadau Tramor	106,282	110,476
Cyfranddaliadau Byd-Eang (gan gynnwys y DU)	633	374
Ecwiti Preifat	10,315	1,986
Stociau Llog Sefydlog Dychweliad Absoliwt	6,001	0
Ymddiriedolaethau Uned Eiddo	17,793	3,000
Deilliadau	27,455	27,761
Arian a Buddsoddiadau Tymor Byr	148,250	148,264
Cyfanswm	545,660	517,066

Mae costau trafodi yn cael eu cynnwys yng nghost prynu a derbyniadau gwerthu. Mae'r costau trafodi yn cynnwys costau sy'n cael eu codi yn uniongyrchol ar y gronfa megis ffioedd, comisiynau, treth stamp a ffioedd eraill. Roedd y costau trafodi a ddeilliodd yn ystod y flwyddyn yn £361,671 (2009/10: £330,676). Yn ychwanegol i'r costau trafodi a nodir uchod, mae costau anuniongyrchol yn deillio o'r gwahaniaeth rhwng pris bid a phris cynnig buddsoddiadau sydd mewn cronfeydd cydgyfrannol. Nid yw'r gronfa yn cael manylion y costau anuniongyrchol yma ar wahân.

NODYN 14 – YMRWYMIADAU O DAN CYTUNDEBAU BUDDSODDI

Mae'r Gronfa Bensiwn wedi ymrwymo i dalu'r symiau dilynol o dan cyntundebau buddsoddi:-

	Cyfanswm Ymrwymiad	Ymrwymiad ar 31 Mawrth 2011
	€'000	€'000
P.G. Direct 2006	20,000	2,036
P.G. Global Value 2006	50,000	12,663
P.G. Secondary 2008	15,000	4,901
P.G. Global Value 2011	15,000	15,000
Cyfanswm Ewros	100,000	34,600
	\$'000	\$'000
P.G. Emerging Markets 2011	7,000	7,000

NODYN 15 - NATUR A MAINT Y RISGIAU SYDD YN CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae gweithgareddau'r Gronfa Bensiwn yn agored i amrywiaeth o risgiau ariannol:

- **Risg Credyd** - y posibilrwydd y byddai partion eraill yn methu talu symiau dyledus i'r Gronfa Bensiwn.
- **Risg Hylifedd** - y posibilrwydd na fyddai gan y Gronfa Bensiwn arian ar gael i gwrdd â'i ymrwymadau i wneud taliadau.
- **Risg Marchnad** - y posibilrwydd y byddai colled ariannol yn codi i'r Gronfa Bensiwn o ganlyniad i newidiadau mewn mesuriadau fel cyfraddau llog a symudiadau ar y farchnad stoc.

Mae rhaglen rheolaeth risg cyffredinol y Gronfa Bensiwn yn canolbwyntio ar ansefydlogrwydd y marchnadoedd ariannol ac yn ceisio lleihau'r effeithiau gwrthwynebus posib ar yr adnoddau i dalu pensiynau. Mae'r Datganiad Strategaeth Cyllido a gynhrychir gan yr Awdurdod Gweinyddu yn datgan sut y rheolir hylifedd a risg mewn perthynas i'r ymrwymadau.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi cyhoeddi'r Datganiad Strategaeth Cyllido hon trwy gymryd trosolwg o lefel y risg cynhenid yn y polisi buddsoddi a osodir yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi a gyhoeddir o dan Reol 12 o'r Local Government Pension Scheme (Management and Investment of Funds) Regulations 2009 (the Investment Regulations) a'r polisi cyllido a gosodir yn y Datganiad hwn. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn parhau i adolygu'r ddwy ddogfen er mwyn sicrhau bod y proffil risg cyffredinol dal yn briodol.

Risg Credyd

Mae risg credyd yn codi o adneuo'n gyda banciau a sefydliadau eraill, ynghyd â datguddiadau credyd i aelodau a chyflogwyr y Gronfa Bensiwn.

Ar hyn o bryd nid oes asesiad credyd ar gyfer cyflogwyr yn y gronfa na gosod terfyn credyd unigol iddynt. Mae risg o beidio gallu casglu cyfraniadau gan gyflogwyr heb unrhyw aelodau sydd yn cyfrannu (e.e. risg yn gysylltiedig â chyflogwyr gyda nifer fach o aelodau yn cyfrannu sydd yn lleihau) ac felly mae'r Awdurdod Gweinyddu yn monitro symudiadau aelodaeth yn flynyddol.

Mae angen i gyflogwyr newydd gytuno i ddarpariaeth bond neu gael gwarant er mwyn lleihau'r risg o golled ariannol i'r gronfa yn y dyfodol os nad yw'r cyflogwr yn gallu cwrdd â'i ymrwymiad pensiwn ar ddarfyddiad. Ar hyn o bryd mae unrhyw ymrwymadau sydd yn disgyn ar y gronfa oherwydd ddarfyddiad yn cael eu rhannu dros gyflogwyr eraill y gronfa. Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn gwarantu unrhyw ymrwymadau sydd yn disgyn ar y gronfa oherwydd ddarfyddiad. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod y cyfnodau adennill a'r symiau yn cael eu cadw ar lefel hylaw i gyflogwyr llai.

Mae'r risg hon wedi codi yn dilyn barn gyfreithiol ddiweddar sydd o bosib yn dangos nad yw cyflogwyr heb aelodau sydd yn cyfrannu yn gallu bod yn gyfrifol am gyfraniadau o dan y Rheoliadau Gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Nid yw'r dyfarniad hon yn effeithio'r gallu i gasglu cyfraniadau yn dilyn gwerthusiad terfynu o dan Reol 38(2). Gellir cyfarwyddo'r Actiwari i ystyried adolygu'r dystysgrif cyfraddau ac addasiadau er mwyn codi cyfraniadau'r cyflogwr o dan Reol 38 o'r Rheoliadau (Gweinyddu) y CPLIL 2008 rhwng gwerthusiadau teirblynyddol.

Nid yw telerau unrhyw asedau ariannol wedi cael eu hail-negodi a fyddai fel arall bod yn orddyledus neu wedi eu hamharu. Mae'r Gronfa Bensiwn wedi dioddef amhariad mewn buddsoddiad yn Heritable Bank a chynhwysir y manylion yn Nodyn 5 uchod.

Ni delir unrhyw cyfochrog fel sicrwydd ar gyfer asedau ariannol. Nid yw'r Gronfa Bensiwn yn arfer caniatáu credyd i'w gwsmeriaid.

Mae crynodiad o'r arian a delir gan y rheolwyr buddsoddi fel y ganlyn:

Rheolwr Buddsoddi	Canran o'r Portffolio
BlackRock	32%
Capital International	19%
Fidelity	19%
Insight	15%
Partners Group	5%
UBS	7%

Mae'r holl fuddsoddiadau gan y rheolwyr buddsoddi yn cael eu dal mewn enw'r Gronfa Bensiwn ac felly os yw'r rheolwr buddsoddi yn methu nid yw'r asedau yn cael eu cyfri fel eu hasedau. Mae angen i bob rheolwr cwrdd â meini prawf graddio a osodir gan ymgynghorwyr y Gronfa.

Risg Hylifedd

Mae gan yr Awdurdod Gweinyddu system llif arian cynhwysfawr sydd yn ceisio sicrhau bod arian ar gael yn ôl yr angen. Yn ogystal mae cyfraniadau cyfredol a derbynnir gan gyflogwyr ac aelodau yn rhagori'r buddiannau i'w talu yn sylweddol. Buddsoddir arian dros ben a ni chaniateir ad-dalu arian i gyflogwyr. Mae Actiwari'r Gronfa yn gosod cyfraniadau er mwyn sicrhau bydd modd cwrdd â'r holl ymrwymadau yn y dyfodol.

Mae'r holl gredydwy'r masnachol ac eraill yn ddyledus o fewn flwyddyn.

Nid oes cyfyngiad a maint y gellir dal mewn cyfrif banc y Gronfa Bensiwn. Dylai'r symiau a delir yn y cyfrif hwn yn cwrdd â'r anghenion hylifedd arferol y gronfa. Buddsoddir unrhyw warged dros dro gan yr Awdurdod Gweinyddu er mwyn ennill incwm ychwanegol i'r Gronfa Bensiwn. Buddsoddir gwaged parhaol yn unol â'r Datganiad Egwyddorion Buddsoddi.

Mae buddsoddiadau'r gronfa yn bennaf rhai hylif. Er gallai unrhyw ddatodiad achosi colled ariannol. Er bod ecwiti preifat yn gallu cael ei gwerthu ar farchnad eilaidd byddai angen prynwr bodlon ac felly mae'n cael eu dosbarthu fel anhylif. Mae natur tymor hir buddsoddiadau ecwiti preifat yn awgrymu a byddai gwerthiant sydyn yn debyg i gynhyrchu dychweliad anffafriol. Ond 5% o'r holl asedau'r gronfa yw ecwiti preifat.

Risg Farchnad

Risg Cyfraddau Llog

Er nad oes gan y Gronfa Bensiwn benthyciadau mae'r Gronfa yn agored i risgiau sylweddol oherwydd symudiadau mewn cyfraddau llog ar ei buddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effaith cymhleth ar y Gronfa Bensiwn. Er enghraifft, byddai codiad mewn cyfraddau llog yn cael yr effaith canlynol:

- Buddsoddiadau ar gyfraddau cyfnewidiol - byddai'r incwm llog sydd yn cael ei gredydu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn codi.
- Buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – byddai gwerth teg yr asedau yn disgyn.

Fel rhan o'r prisiad teirblynyddol ac yn unol â'r Datganiad Strategaeth Buddsoddi bydd yr Actiwari ond yn rhagweld dychweliadau tymor hir ar sail cymharol bwylllog er mwyn lleihau'r risg o dan-perfformiad. Dadansoddir cynnydd mewn prisiadau teirblynyddol i bob cyflogwr. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn gofyn am ddiweddariad cyllido yn flynyddol dros y cyfnod rhwng cwblhau'r adroddiad prisio a dyddiad y prisiad nesaf er mwyn monitro'r sefyllfa.

Cyfradd Disgownt

Mae amcangyfrif yr ymrwymiad net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth yn gysylltiedig efo'r gyfradd disgownt a defnyddir, y gyfradd taflunio codiadau cyflogau, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfraddau marwolaeth a dychweliadau a disgwylir ar asedau'r Gronfa Bensiwn. Cyflogir cwmni o Actiwariad ymgynghorol er mwyn darparu cyngor arbenigol i'r Awdurdod Gweinyddu am y tybiaethau i'w defnyddio.

Gellir mesur effeithiau newidiadau mewn tybiaethau unigol ar yr ymrwymiad net pensiynau. Er enghraifft, byddai codiad o 0.5% yn y gyfradd disgownt yn golygu lleihad o £111m yn yr ymrwymiad pensiynau. Er hynny, mae'r tybiaethau yn rhyngweithio mewn modd cymhleth. Yn ystod 2010/11, cynghorodd Actiwari y Gronfa bod yr ymrwymiad net pensiynau wedi codi £21.2m yn dilyn cywiro'r amcangyfrifon fel canlyniad i brofiad ac wedi codi £1.5m oherwydd diweddariad o'r tybiaethau.

Risg Prisiau

Mae'r Gronfa Bensiwn yn dal nifer o fuddsoddiadau ecwiti, bondiau ac eiddo. Felly, mae'n agored i elfen o risg mewn perthynas i symudiadau mewn prisiau'r buddsoddiadau. Gellir pris y buddsoddiadau codi neu fynd i lawr ac mae posibilrwydd na fydd buddsoddwyr yn cael yr holl swm a buddsoddwyd yn ôl.

Lleddfir hyn wrth fuddsoddi mewn portffolio amrywiol mewn termau rheolwyr a buddsoddiadau ac eto trwy'r actiwari ond yn rhagweld dychweliad tymor hir eithaf pwylllog er mwyn lleihau'r risg o dan-perfformiad. Ecwiti yw dosbarth mwyaf buddsoddiadau'r Gronfa. Mae 75% o'r buddsoddiadau ecwiti mewn cronfeydd cyfuno gyda 25% wedi ei buddsoddi mewn ecwiti unigol.

Risg Marchnad Cyfnewid Dramor

Mae'r Gronfa Bensiwn yn dal asedau neu ymrwymadau wedi eu dynodi mewn arian dramor. Oherwydd hyn mae datguddiad i elfen o risg mewn perthynas i amrywiad arian.

Mae'r Gronfa wedi gwneud ymrwymadau i fuddsoddiadau ecwiti preifat mewn arian dramor, (€100miliwn a \$7miliwn). Tynnir yr ymrwymadau hyn lawr ar gais y rheolwr buddsoddi dros nifer o

flynyddoedd. Dangosir yr ymrwymadau sy'n dal yn ddyledus yn nodyn 14. Y risg yw bod y bunt yn wan o'i gymharu â'r dollar a'r ewro ar amser tynnu lawr ac wedyn yn cryfhau pan mae'r gronfa wedi cyllido'n llawn. Mae'r Gronfa wedi bod yn cyllido'r ymrwymadau ers 2007 ac felly mae'r ymrwymiad wedi ei rhannu dros gyfnod hir.

NODYN 16 – CYFRANIADAU GWIRFODDOL YCHWANEGOL (CGY)

Mae yna 3 Cronfa Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol. Maent yn cael eu dal gan Clerical Medical, The Equitable Life Assurance Society a Standard Life. Mae asedau'r buddsoddiadau hyn yn cael eu dal ar wahân i'r brif Gronfa a nid ydynt yn cael eu cynnwys yng nghyfrifon y Gronfa Bensiwn. Mae darparwyr CGY yn sicrhau buddion ychwanegol ar sail cynllun prynu arian ar gyfer yr aelodau hynny sydd yn dewis talu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol. Mae aelodau sy'n cyfrannu yn y trefniannau hyn yn derbyn datganiad blynyddol hyd at 31 Mawrth sy'n cadarnhau'r cyfanswm sy'n cael ei ddal yn eu cyfrif ynghyd â'r symudiadau yn ystod y flwyddyn.

Dangosir gwerth y cronfeydd yma ar 31 Mawrth 2011 isod:

	Clerical Medical £'000	Equitable Life £'000	Standard Life £'000	Cyfanswm CGY £'000
Gwerth y Gronfa ar 31 Mawrth 2010	2,160	578	251	2,989
Cyfraniadau A dderbyniwyd	287	1	14	302
Llog/Newid yng Ngwerth y Farchnad	149	18	21	188
Gwerth Trosglwyddo	0	0	0	0
Premiwm Yswiriant Bywyd	(0)	(0)	(0)	(0)
Budd-dal Ymddeol	(149)	(51)	(69)	(269)
Ymadawiaadau	(24)	(0)	(6)	(30)
Budd-dal Marwolaeth	(9)	(0)	(0)	(9)
Ad-daliadau	(1)	(0)	(0)	(1)
Cyfraniadau Dderbyniwyd ond sydd heb gael eu defnyddio i brynu buddion eto	(1)	(0)	(0)	(1)
Gwerth y Gronfa ar 31 Mawrth 2011	2,412	546	211	3,169

Nid yw'r symiau uchod yn cael eu cynnwys yng Nghyfrifon y Gronfa Bensiwn yn unol â Rheoliad 5 (2)(c) o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 1998 (S.I. 1998 Rhif 1831).

NODYN 17 - PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Yn ystod y flwyddyn talodd Cronfa Bensiwn Gwynedd gostau gweinyddol o £906,391 i Gyngor Gwynedd (gweler Nodyn 9 Costau Gweinyddol).

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd dri chyfrif banc sy'n cael eu dal fel rhan o Grwp o Gyfrifon Banc Cyngor Gwynedd. Mae'r arian dros ben sy'n cael ei ddal yn y Grwp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi yn ddyddiol. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn, sy'n seiliedig ar falansau dyddiol y Gronfa yn ystod y flwyddyn. Yn 2010/11, derbyniodd y Gronfa log o £103,483 gan Gyngor Gwynedd.

Mae tri aelod o'r Pwyllgor Pensiynau wedi datgan diddordeb mewn cyrff sy'n ymdrin â'r Gronfa. Mae dau Brif Swyddog hefyd wedi datgan diddordeb mewn cyrff sy'n ymdrin â'r Gronfa. Ym mhob achos roedd y cyrff hyn yn gyflogwyr sy'n rhan o'r Gronfa.

NODYN 18 – DIGWYDDIADAU ÔL-FANTOLEN

Mae'r cyfrifon amlinellir yn y datganiad yn cynrychioli sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar 31ain o Fawrth 2011. Ers y dyddiad hwn, gall perfformiad y marchnadoedd ecwiti byd-eang effeithio gwerth ariannol buddsoddiadau'r gronfa bensiwn. Nid yw'r symudiad hwn yn effeithio gallu'r Gronfa i dalu ei bensiynwyr.

NODYN 19 – DATGANIAD O EGWYDDORION BUDDSODDI

Yng Ngorffennaf 2010, cyhoeddodd Cyngor Gwynedd Ddatganiad o Egwyddorion Buddsoddi diwygiedig fel a'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Pensiynau. Gellir cael copi ohono drwy gysylltu â Mrs Caroline Roberts ar 01286 679128.

NODYN 20 – DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO

Yn Mawrth 2011, cyhoeddodd Cyngor Gwynedd Ddatganiad o Strategaeth Cyllido, fel a'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Pensiynau. Gellir cael copi ohono drwy gysylltu â Mrs Caroline Roberts ar 01286 679128.

NODYN 21 - ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GRONFA BENSIWN AM 2010/11.

Mae adroddiad manwl ychwanegol yn cael ei baratoi ynglyn â'r Gronfa Bensiwn. Gellir cael copi drwy gysylltu â Mrs Caroline Roberts ar 01286 679128.

NODYN 22 – DATGANIADAU LLYWODRAETHU

Ym mis Hydref 2008, cyhoeddodd Cyngor Gwynedd eu Datganiad Polisi Llywodraethu a'u Datganiad Cydymffurfiaid â'r Drefn Lywodraethol, fel a'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Pensiynau. Gellir cael copi ohono drwy gysylltu â Mrs Caroline Roberts ar 01286 679128.

NODYN 23 – DATGANIAD POLISI CYFATHREBU

Yn Mawrth 2010, cyhoeddodd Cyngor Gwynedd eu Datganiad Polisi Cyfathrebu, fel a'i gymeradwywyd gan y Pwyllgor Pensiynau. Gellir cael copi ohono drwy gysylltu â Mr Gareth Jones ar 01286 679612.

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i Aelodau Cyngor Gwynedd

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig:

- Cyngor Gwynedd; a
- Cronfa Bensiwn Gwynedd

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd yn cynnwys y Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, y Datganiad Symud ar Falans y Cyfrif Refeniw Tai a Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalennau 98 i 110, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, gan gynnwys cyfrifon y gronfa bensiwn, sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu

Cynhelir archwiliad er mwyn cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisiâu cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Gwynedd a Gronfa Bensiwn Gwynedd a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair Eglurhaol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2011 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11.

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Gronfa Bensiwn Gwynedd

Yn fy marn i, mae cyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 ac o swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa ar y dyddiad hwnnw;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhagair Eglurhaol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau

cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i gyflwyno adroddiad arno o ran y Datganiad Llywodraethu y cyflwynaf adroddiad i chi yn ei gylch os na fydd, yn fy marn i, yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Gwynedd Council yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Anthony Barrett
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Cardiff
CF11 9LJ
29 Medi 2011

	Cyfanswm Gwariant £'000	Cyfanswm Incwm £'000	Gwariant Net £'000
Diwylliant a Gwasanaethau Cysylltiedig			
<i>Rhaniaid Gwasanaeth</i>			
Diwylliant a Threftadaeth	1,899	(507)	1,392
Hamdden a Chwaraeon	11,705	(5,335)	6,370
Meysydd Agored	2,193	(867)	1,326
Twristiaeth	1,111	(281)	830
Llyfrgelloedd	2,627	(200)	2,427
	19,535	(7,190)	12,345

Gwasanaethau Amgylcheddol

<i>Rhaniaid Gwasanaeth</i>			
Mynwentydd, amlosgfeydd a marwdai	996	(710)	286
Amddiffyn yr Arfordir	738	(70)	668
Diogelwch Cymunedol (Lleihau Troseddau)	1,016	(774)	242
Diogelwch Cymunedol (CCTV)	367	(84)	283
Diogelwch Cymunedol (Gwasanaethau Diogelwch)	79	(79)	0
Gwarchod rhag llifogydd a thraenio tiroedd	220	(43)	177
Gwasanaethau Amaethyddol a Physgodfeydd	111	(202)	(91)
Gwasanaethau Rheoleiddio	4,318	(2,474)	1,844
Glanhau Strydoedd (nad yw'n daladwy gan Briffyrdd)	3,033	(248)	2,785
Casglu gwastraff	2,318	(107)	2,211
Gwaredu gwastraff	9,214	(2,186)	7,028
Gwastraff Masnachol	2,085	(1,794)	291
Ailgylchu	5,054	(3,317)	1,737
Isafu Gwastraff	78	0	78
	29,627	(12,088)	17,539

Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu

<i>Rhaniaid Gwasanaeth</i>			
Rheolaeth Adeiladu	934	(504)	430
Rheolaeth Datblygu	1,581	(579)	1,002
Polisi Cynllunio	624	(53)	571
Mentrau amgylcheddol	1,395	(501)	894
Datblygu'r Economi	3,703	(2,245)	1,458
Datblygiadau Cymunedol	1,639	(863)	776
Ymchwil economaidd	6	0	6
Cefnogaeth Busnes	965	(409)	556
	10,847	(5,154)	5,693

Gwasanaethau Plant ac Addysg - Addysg

<i>Rhaniaid Gwasanaeth</i>			
Ysgolion Cynradd	49,887	(7,139)	42,748
Ysgolion Uwchradd	46,580	(8,059)	38,521
Ysgolion Arbennig	6,315	(1,449)	4,866
Gwasanaethau i pobl ifanc	1,746	(249)	1,497
ffwythiannau Addysg eraill sy'n berthnasol i ysgolion	3,381	(1,358)	2,023
	107,909	(18,254)	89,655

Gwasanaethau Plant ac Addysg - Gofal Cymdeithasol Plant

<i>Rhaniaid Gwasanaeth</i>			
Strategaeth Gwasanaeth - Plant	4,550	(427)	4,123
Plant mewn Gofal	8,725	(465)	8,260
Gwasanaethau Cefnogaeth i Deuluoedd	1,543	(228)	1,315
Cyfiawnder Ieuencid	1,115	(812)	303
Gwasanaethau eraill i blant a theuluoedd	1,977	(1,393)	584
Diogelwch plant a phobl ifanc	95	(61)	34
	18,005	(3,386)	14,619

	Cyfanswm Gwariant £'000	Cyfanswm Incwm £'000	Gwariant Net £'000
Priffyrdd, Ffyrdd a Thrafnidiaeth			
<i>Rhaniaid Gwasanaeth</i>			
Cynllunio, polisi a strategaeth trafndiaeth	1,250	(422)	828
Cynnal a Chadw Strwythurol	9,752	(3,442)	6,310
Treuliau Cyfalaf sy'n perthyn i Brosiectau Adeiladu	4,192	(1,774)	2,418
Amgylchedd, Diogelwch a Chynnal a Chadw Rheolaidd	4,109	(1,499)	2,610
Goleuo Strydoedd (gan gynnwys costau ynni)	2,180	(332)	1,848
Gwasanaeth Gaeaf	2,023	(282)	1,741
Rheolaeth Traffig a Diogelwch Ffyrdd	1,088	(226)	862
Gwasanaethau Parcio	2,066	(1,898)	168
Trafnidiaeth Cyhoeddus	5,291	(3,348)	1,943
	31,951	(13,223)	18,728

Gwasanaethau Tai (Cronfa Gyffredinol)

Rhaniaid Gwasanaeth

Strategaeth Tai	386	(633)	(247)
Galluogi (Enabling)	91	0	91
Adnewyddu Tai'r Sector Breifat	3,632	(1,454)	2,178
Trwyddedu Landlordiaid Sector Breifat	501	(54)	447
Di gartrefedd	1,799	(586)	1,213
Taliadau Budd-daliadau Tai	26,853	(26,791)	62
Gweinyddu Budd-daliadau Tai	1,185	(797)	388
Eiddo arall y Cyngor	126	(30)	96
Cefnogi Pobl	4,011	(4,003)	8
	38,584	(34,348)	4,236

Gofal Cymdeithasol Oedolion

Rhaniaid Gwasanaeth

Strategaeth Gwasanaeth - Pobl Hyn	305	(5)	300
Pobl Hyn (65 oed a throsodd) yn cynnwys rhai â salwch meddwl	32,552	(10,677)	21,875
Oedolion o dan 65 oed gydag anabledd corfforol neu amhariad synhwyraidd	4,277	(429)	3,848
Oedolion o dan 65 oed gydag anableddau dysgu	14,197	(2,869)	11,328
Oedolion o dan 65 oed gydag anghenion iechyd meddwl	3,951	(652)	3,299
Gwasanaethau eraill i oedolion	1,225	(761)	464
	56,507	(15,393)	41,114

Gwasanaethau Canolog i'r Cyhoedd

Rhaniaid Gwasanaeth

Casglu Trethi Lleol	10,164	(9,486)	678
Cofrestru Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau	382	(170)	212
Etholiadau	507	(299)	208
Cynllunio Argyfwng	158	0	158
Priodiannau Tir	113	(117)	(4)
Gwasanaethau'r Crwner	421	(162)	259
	11,745	(10,234)	1,511

Costau Corfforaethol a Democraidd Craidd

Rhaniaid Gwasanaeth

Rheolaeth a Chynrychiolaeth Democraidd	2,827	(58)	2,769
Rheolaeth Gorfforaethol	4,874	(2,768)	2,106
	7,701	(2,826)	4,875

Costau Heb eu Dosrannu

Rhaniaid Gwasanaeth

Costau Heb eu Dosrannu	9	(1,903)	(1,894)
Costau Heb eu Dosrannu - Eitem Eithriadol	(50,757)	0	(50,757)
	(50,748)	(1,903)	(52,651)

Cyfrif Refeniw Tai

Cyfrif Refeniw Tai	1,210	(548)	662
Cyfrif Refeniw Tai - Costau Eithriadol	466,727	(217,374)	249,353
	467,937	(217,922)	250,015

COST GWASANAETHAU

	749,600	(341,921)	407,679
--	----------------	------------------	----------------

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Mae'r datganiad hwn yn cwrdd â'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 4 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.

Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei diogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol. Mae'n ddyletswydd o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 i Gyngor Gwynedd sefydlu trefniadau sy'n sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y mae'n gweithredu ei swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o agweddau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau eang yma, mae Cyngor Gwynedd hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, ac sydd yn cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo a mabwysiadu Cod Llywodraethu Corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE Delivering Good Governance in Local Government. Mae copi o'r cod i'w gael ar ein gwefan, neu gellir derbyn copi trwy ysgrifennu at Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Sir, Stryd y Castell, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH. Mae'r datganiad yma yn esbonio sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r cod ac mae hefyd yn cwrdd â gofynion rheoliad 4(2) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reoli mewnol.

Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a phrosesau, diwylliant a gwerthoedd hynny sydd yn cyfeirio a rheoli'r awdurdod, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac i ystyried os yw'r amcanion wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac wedi ei ddylunio i alluogi'r Cyngor i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisiau ac amcanion; gall felly ond ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses parhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisiau, bwriadon ac amcanion y Cyngor, i werthuso'r tebygolrwydd o risgiau'n cael eu gwireddu ac i isafu'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod yn ei le yng Nghyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddau 31 Mawrth 2011 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

Rhan 3: Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae elfennau allweddol y systemau a phrosesau sy'n cwmpasu trefniadau llywodraethu Cyngor Gwynedd fel a ganlyn:

Adnabod a chyfathrebu gweledigaeth yr awdurdod

- Mae 'Gwynedd ar y Cyd' - partneriaeth strategol o asiantaethau allweddol ar draws y Sir - wedi datblygu Strategaeth Gymunedol Gwynedd, "Gwella Gwynedd gyda'n Gilydd". Pwrpas y Strategaeth Gymunedol yw hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yng Ngwynedd. Mae'r Strategaeth ei hun yn amlinellu cyfres o ganlyniadau ac is-ganlyniadau y mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn cydweithio i'w gwireddu. Mae'r strategaeth yn targedu pum prif ganlyniad strategol:-
 1. Ardal ble mae'r economi yn ffynnu
 2. Ardal gydag amgylchedd cynaliadwy
 3. Ardal ble mae plant a phobl ifanc yn llwyddo
 4. Ardal byrlymus i fyw gyda chymunedau diogel
 5. Ardal gydag iechyd da a'r gofal gorau yn y gymuned
- **Yn ogystal**, mae'r egwyddorion canlynol yn ganolog i'r gwaith
 - Hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell i'n cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol
 - Hyrwyddo gwasanaethau lleol sydd yn canolbwyntio ar y dinesydd
 - Mynd i'r afael â materion cymdeithasol sy'n cyfrannu at amddifadedd, iechyd gwael a diffyg cyfle cyfartal
 - Ymrwymiad i gydweithio ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.
 - Ymrwymiad i fod yn atebol i drigolion y sir
 - Hyrwyddo cyfle cyfartal
 - Hyrwyddo yr iaith Gymraeg
- Mae amcanion y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid oddi fewn i Gynllun Tair Blynedd y Cyngor wedi cael eu cyd-datblygu gyda'r Strategaeth Gymunedol a maent yn cefnogi gwaith a gweledigaeth y Strategaeth. Nod y Cyngor yw ceisio'r "Gorau i Bobl Gwynedd Heddiw ac Yfory".
- Yn ystod 2010/11, bu'r Cyngor yn dilyn camau gweithredol penodol er mwyn datblygu Cynllun Tair Blynedd ar gyfer 2011-14. Mabwysiadwyd y Cynllun gan y Cyngor ar 12 Mai 2011. Mae'r Cynllun Tair Blynedd yn ddogfen allweddol i'r Cyngor gan ei fod yn gynllun strategol sydd yn crynhoi'r amcanion gwella y mae'r Cyngor am fynd i'r afael â hwy dros y tair blynedd nesaf.
- Yn unol â gofynion Rhaglen Gwella Cymru, mae'r Cyngor yn adolygu'r cynllun hwnnw yn flynyddol ac yn gosod allan y modd y bwriedir ymateb i'r prif flaenoriaethau. Mae'r Cynllun yn ddolen gswllt pwysig rhwng y Strategaeth Gymunedol a chynlluniau busnes gwasanaethau'r Cyngor, a'i ddangosyddion a'i gynlluniau ar gyfer gwella ar lefel unedau busnes.

Adolygu gweledigaeth yr awdurdod a'i goblygiadau ar gyfer trefniadau llywodraethu

- Yn ystod 2010/11 cwblhawyd Hunan Asesiad o drefniadau arweinyddiaeth, ymgysylltu a llywodraethu'r Cyngor a lluniwyd cynigion pendant i ymateb i'r asesiad hynny gan Fwrdd Rhaglen Trawsfurfio'r Cyngor. Y nod yn hyn oll oedd sicrhau y byddai'r Cyngor wedi cytuno ar y meysydd lle mae trefniadau yn foddhaol a hefyd ar gamau i wneud gwaith datblygu pellach lle y mae ei angen.

Penderfynodd Bwrdd y Cyngor ddefnyddio meincnod safonol yr IDeA (Improvement and Development Agency), wedi ei addasu i adlewyrchu'r gofynion gwahanol yng Nghymru. yn sylfaen ar gyfer gwneud yr asesiad. Mae'r fframwaith hwnnw yn edrych ar ac yn ceisio disgrifio cyngor delfrydol ar draws pum prif faes, Llwyddiannau a chanlyniadau, Arwain a llywodraethu, Ymgysylltu a chwsmeriaid, cymunedau a phartneriaid, Rheoli adnoddau a pherfformiad a Trefniadaeth a Phobl. Addaswyd y meincnod i symleiddio'r eirfa a gosodwyd hefyd gasgliadau trafodaethau gyda rheolwyr ac aelodau arweiniol ynglyn a "pha fath o gyngor 'da ni angen bod".
- Cyflwynir Strategaeth Ariannol Tymor-Canol i'r Cyngor bob mis Chwefror.

Mesur ansawdd gwasanaeth i'r defnyddwyr, sicrhau darparir hwy yn unol ag amcanion yr awdurdod a defnydd gorau o adnoddau.

- Datganiad o bwrpas yr Adran Strategol a Gwella yw “datblygu, sefydlu a chefnogi diwylliant, a systemau rheoli perfformiad a phrosiectau grymus er mwyn cefnogi'r egwyddor o welliant parhaus a gwneud y defnydd gorau o adnoddau”.
- Datblygir dangosyddion perfformiad lleol a gwelliannau fel canlyniad i'r asesiadau risg busnes y Cyngor. Caiff pob dangosydd ei nodi fel bod yn un allweddol unai ar lefel Uned, Gwasanaeth neu'r Cynllun Tair Blynedd. Mae'r Cynllun Tair Blynedd yn rhestru prif ddangosyddion allweddol corfforaethol y Cyngor.
- Mae'r broses cynllunio busnes yn cychwyn gydag asesiad risg busnes gan bob uned fusnes o fewn yr awdurdod. Fel rhan o'r broses yma, mae'n ofynnol i'r unedau hyn oll ystyried perfformiad o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, yn ogystal â pherfformiad o'i gymharu ag awdurdodau eraill (ble mae cyfryw wybodaeth ar gael).
- Pan fydd dangosyddion unedau busnes wedi eu pennu a'r targedau wedi eu gosod, mae'r dangosyddion yn destun herio gan yr Adran Strategol a Gwella a'r aelodau etholedig. Rhan o'r broses herio yma yw adnabod camau gweithredu ar gyfer meysydd o berfformiad isel, a herio targedau sydd yn ymddangos yn rhy isel o ystyried perfformiad hanesyddol. Mae Cynllun tair Blynedd y Cyngor yn adnabod y meysydd hynny lle mae angen canolbwyntio ar welliant sylweddol.
- Yn Ebrill 2011 mabwysiadwyd Côt Llywodraethu Lleol. Mae'r Cod Lleol yn seiliedig ar chwech egwyddor craidd Fframwaith CIPFA/SOLACE ar gyfer llywodraethu corfforaethol mewn awdurdodau lleol a'u hegwyddorion cefnogol, oedd yn eu tro wedi eu addasu o “Safon Genedlaethol ar Gyfer Llywodraethu Da mewn Gwasanaethau Cyhoeddus” a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Annibynnol ar Lywodraethu Da mewn Gwasanaethau Cyhoeddus yn 2004. Mae Fframwaith CIPFA/SOLACE yn nodi'r anghenion ar gyfer cwrdd a'r egwyddorion a'r hyn a ddylid ei adlewyrchu mewn cod llywodraethu lleol.

Diffinio a dogfennu swyddogaethau, gyda threfniadau dirprwyo clir a phrotocol ar gyfer cyfathrebu effeithiol.

- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu strwythur rheoli sy'n cynnwys Prif Weithredwr (sydd hefyd yn Bennaeth y Gwasanaeth Taledig) a thri Cyfarwyddwr Corfforaethol. Gyda'i gilydd, nhw yw Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol y Cyngor. Mae aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol ynghyd â'r Swyddog Monitro a'r Pennaeth Cyllid yn ffurfio'r Grwp Arweinyddiaeth y Cyngor.
- Mae'r Cyngor wedi enwebu'r Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol fel y Swyddog Monitro yn unol ag Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, a'r Pennaeth Cyllid fel y Swyddog Cyllid Cyfrifol yn unol ag Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys protocolau ar weithredu dyletswyddau statudol y Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyllid.
- Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys manylion y cynlluniau dirprwyo hawliau i bwyllgorau, aelodau a swyddogion y Cyngor ynghyd â dosbarthiad o swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i Fwrdd y Cyngor.
- Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys protocol ynghylch dyletswyddau a chyfrifoldebau Aelodau. Mae'r protocol yn manylu ar bwrpas a dyletswyddau'r aelodau, cadeirydd, is-gadeirydd, arweinydd portffolio, uwch arweinydd ac arweinydd y Cyngor.
- Mae Cyngor Gwynedd wedi llunio Cynllun Lwfansau Aelodau ar sail Reoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007.
- Yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 13 Mai 2010, diwygiwyd Cynllun Lwfansau Aelodau'r Cyngor i adlewyrchu adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Lwfansau Aelodau.
- Mae Pwyllgor Safonau wedi ei sefydlu yng Nghyngor Gwynedd er mwyn sicrhau y gwarchodir safonau ymddygiad o fewn y Cyngor a phriodoldeb yn holl drafodion y Cyngor.
- Cyhoeddwyd Strategaeth Trosolwg a Chraffu 2009/12 er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth ymysg aelodau a swyddogion y Cyngor o'r ymarfer gorau yn y maes, a'r dulliau y bwriedir eu defnyddio i gymryd cam sylweddol ymlaen yn nhrefniadaeth craffu Cyngor Gwynedd.

Datblygu a chyfathrebu cod ymddygiad ar gyfer aelodau a swyddogion

- Mae gwerthoedd y Cyngor fel a ganlyn:
 - Gwasanaethu
 - Positif
 - Gweithio fel tîm
 - Gwerth am arian
 - Parch
- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu "Gorchymyn Cod Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001" fel cod ymddygiad ar gyfer ei holl staff.
- Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau'r Cyngor yn cael ei arwain gan y Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001. Mae'r Gorchymyn yn nodi'r egwyddorion sydd i lywodraethu ymddygiad aelodau awdurdod yng Nghymru; yr egwyddorion yw:
 - Anhunanoldeb;
 - Gonestrwydd;
 - Uniondeb a gwedduster;
 - Dyletswydd i gynnal y gyfraith;
 - Stiwardiaeth;
 - Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau;
 - Cydraddoldeb a pharch;
 - Bod yn agored;
 - Atebolrwydd; a
 - Rhoi Arweiniad
- Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau'n cynnwys rhannau penodol ar fuddiannau a chofrestr buddiannau aelodau. Cedwir Cofrestr Buddiannau Staff yn ganolog gan y Swyddog Monitro. Disgwylir i weithiwr gyflwyno eu datganiadau o fuddiannau yn ysgrifenedig yn y lle cyntaf i'r Prif Swyddog, i'w hanfon ymlaen i'r Swyddog Monitro.

Adolygu a diweddarau prosesau a rheolaethau ar gyfer rheoli risg

- Mae pob adroddiad Pwyllgor sydd â phenderfyniad gweithredol yn mynd gerbron y 3 swyddog statudol am sylwadaeth.
- Mae'r Gwasanaethau Archwilio a Rheoli Risg o fewn yr Adran Cyllid wedi datblygu Polisi a Strategaeth Rheoli Risg ar gyfer yr awdurdod cyfan. Mae'r polisi a'r strategaeth wedi eu cymeradwyo gan y Tîm Rheoli Corfforaethol gyda'r amcan o sicrhau fod rheolaeth o risgiau wedi eu gwelyo'n ffurfiol ym mhob agwedd o waith yr Awdurdod. Mae proses barhaus o sicrhau fod pob rheolwr yn derbyn hyfforddiant ar adnabod bygythiadau a chyfleon yn y modd yma, gydag adnabod risgiau a datblygu cynlluniau gweithredu yn rhan o gylch cynllunio busnes "Cyflawni" yr Awdurdod.
- Mae'r Strategaeth Archwilio Mewnol yn gosod allan yn glir y bwriad i gynnal gwasanaeth sy'n cynnal archwiliadau ar sail risg, a'r ddibyniaeth a roddir ar y trefniadau rheoli risg corfforaethol wrth gynllunio gwaith Archwilio Mewnol. Gan fod ansicrwydd ynglyn â sut yn union y bydd Archwilio Mewnol yn cael ei ddarparu i Gyngor Gwynedd ar ôl Mawrth 2012, cytunodd y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2011 i ymestyn strategaeth 3-blynedd Archwilio Mewnol am flwyddyn ychwanegol, hyd at 31 Mawrth 2012.
- Disgwylir i reolwyr fod yn gyfrifol am reoli'r risgiau sy'n berthnasol i'w meysydd hwy. Mae hynny wedi ei ymgorffori yn y Strategaeth Rheoli Risg. Disgwylir i swydd-ddisgrifiadau gynnwys cyfeiriad penodol at rai risgiau, yn arbennig felly ym meysydd lechyd a Diogelwch a Chydraddoldeb.
- Mae Rheolau Gweithdrefn Ariannol yn rhan o gyfansoddiad Cyngor Gwynedd ac yn gosod y fframwaith ar gyfer rheoli materion ariannol y Cyngor. Maent yn destun adolygiad rheolaidd.

Swyddogaeth y pwyllgor archwilio

- Yn ystod 2010/11 roedd gan y Cyngor Bwyllgor Archwilio oedd yn cyflawni'r swyddogaethau canlynol:-
 1. Hybu rheolaeth fewnol, gan sefydlu amserlen i adolygu rheolaeth, datblygu diwylliant sydd yn milwrio yn erbyn twyll ac adolygu gweithdrefnau cyllidol;
 2. Canolbwyntio adnoddau archwilio'r cyngor trwy gytuno ar gynlluniau archwilio a monitro darpariaeth archwilio;
 3. Monitro perfformiad archwilio trwy sicrhau gwaith swyddogion o fewn amserlenni, sicrhau bod adroddiadau archwilio yn cael eu cyhoeddi yn brydlon ac yr ymatebir iddynt yn yr un modd, monitro cwblhau'r cyfrifon a sicrhau y gweithredir argymhellion archwilio;
 4. Ystyried sylwadau a phryderon am wasanaethau unigol ar lefel sirol, ar sail adroddiadau gan swyddogion y Cyngor neu Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.
 5. Cymeradwyo datganiad cyfrifon y Cyngor dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 ynghyd ag unrhyw ddogfennau cysylltiedig.
 6. Ystyried adroddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dan Adran 16 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 a phenderfynu sut i weithredu;
 7. Derbyn adroddiad blynyddol ar gwynion dan drefn gwynion y Cyngor.
- Darperir y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn unol â Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod yn datgan mai swyddogaeth rhoi sicrwydd yw Archwilio Mewnol sydd yn darparu barn annibynnol a gwrthrychol i gyfundrefn ar yr amgylchedd reolaeth wrth werthuso ei effeithiolrwydd tra'n gwireddu amcanion y gyfundrefn. Mae'n archwilio, gwerthuso ac adrodd yn wrthrychol ar ddigonolrwydd yr amgylchedd reolaethol fel cyfraniad i'r defnydd priodol, economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau. Darperir cynllun archwilio blynyddol yn seiliedig ar y Strategaeth Archwilio Mewnol.
- Yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA, mae'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn paratoi adroddiad blynyddol sydd yn crynhoi canlyniad gwaith archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn ar y system gyflawn o reolaeth fewnol yn yr awdurdod.

Sicrhau cydymffurfiaeth gyda chyfraith, deddfau, trefniadau mewnol a bod gwariant yn gyfreithlon

- Disgwylir i archwilwyr mewnol ac allanol y Cyngor adrodd i'r swyddogion perthnasol ar unrhyw fethiant i gydymffurfio naill ai â pholisi neu ddeddfwriaeth, ac adrodd i'r Pwyllgor Archwilio yn unol â'i Gylch Gorchwyl. Mae'r penaethiaid adran yn derbyn copi o bob adroddiad archwiliad mewnol perthnasol, ac adroddir i'r Pwyllgor Archwilio ar ganlyniadau gwaith dilyniant ar argymhellion gyda golwg ar uchafu ardrawiad y gwaith archwilio.
- Mae Cyngor Gwynedd wedi paratoi Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol, yn unol â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. Mae'r polisi yn datgan bod y Cyngor yn cydnabod ac yn derbyn, gyhyd ag sy'n rhesymol ymarferol, ei ddyletswydd fel cyflogwr tuag at ei weithwyr ac eraill a allai gael eu heffeithio gan ei weithgareddau. Nod Cyngor Gwynedd yw cyflawni'r safon uchaf wrth reoli iechyd, diogelwch a lles.

Canu'r gloch a derbyn cwynion gan y cyhoedd

- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Polisi a Threfniadau Canu'r Gloch, cynllun sy'n rhoi ffordd ddiogel a dibynadwy i weithwyr sôn yn ddiwyll am unrhyw bryderon am ymddygiad anghyfreithlon, twyllodrus neu lygredig, camweinyddu ariannol, perygl i'r cyhoedd neu'r amgylchedd, cam-drin cleientiaid, ayb. Yn ystod mis Mai 2009 dosbarthwyd cerdyn sydd yn codi ymwybyddiaeth ynghylch y drefn canu'r gloch i holl swyddogion y Cyngor.
- Mae'r Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno trefn safonol ar hyd y cyngor i ddeilio gyda chwynion. Mae'r Cyngor o'r farn bod y drefn yn hawdd ei ddefnyddio, mae'n ymchwilio'n drwyadl i bob cwyn, mae'n gwarantu ateb cyflym a chyflawn ac mae'n cynnig cyfle i fynd a'r mater ymhellach os nad yw unigolion yn hapus efo'r ymateb. Yn ogystal, mae'r drefn cwyno yn cydymffurfio â threfniadau statudol a geir mewn adrannau e.e. trefniadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â Deddf Plant 1989 a Deddf Gofal yn y Gymuned 1990. Mae "Ffurflen Cwyno" priodol ar gael i gofnodi cwyn.

Adnabod a datblygu anghenion aelodau ac uwch swyddogion

- Mae'r Cyngor wedi dylunio matrices hyfforddi ar gyfer swyddogion ac wedi dynodi 6 categori hyfforddi; Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol, Penaethiaid, Rheolwyr, Arweinwyr Maes, Goruchwylwyr, Staff a Gweithwyr Uniongyrchol. Defnyddiwyd nodweddion penodol ar gyfer adnabod categori hyfforddi priodol aelod o staff. Mae rhaglen hyfforddi wedi ei lunio ar gyfer pob categori.
- Mae'r Awdurdod yn parhau i weithredu a datblygu'r Strategaeth Hyfforddi a Datblygu Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym Mai 2009.

Sefydlu modd clir ar gyfer cyfathrebu gyda'r gymuned a deiliad diddordeb eraill, gan sicrhau atebolrwydd ac ymgynghoriad agored

- Ceir protocol ar gyfer cyswllt aelod a swyddog yn y Cyfansoddiad gyda'r bwriad o roi arweiniad i aelodau a swyddogion y Cyngor yng nghyd-destun eu cysylltiad â'i gilydd. Ceisia'r protocol gynnig arweiniad ar rai o'r materion sy'n codi amlaf, yn ogystal â hybu mwy o eglurder a sicrwydd.
- Cynhelir cyfarfod blynyddol Gwynedd ar y Cyd, ble mae cyfle i drigolion Gwynedd gael adborth am y gwaith sydd wedi ei gyflawni ac i gyfrannu tuag at y camau nesaf o'r bartneriaeth.

Ymgorffori trefniadau llywodraethu da ar gyfer partneriaethau gan adlewyrchu'r rhain yn nhrefniadau llywodraethu yr Awdurdod

- Yn ystod 2010/11 cynhaliwyd adolygiad o bartneriaethau ar draws Gogledd Cymru, dan arweiniad Heddlu Gogledd Cymru, oherwydd y canfyddiad bod y system oedd yn ei le yn anghynladwy: -
 - Mae'r gostyngiad mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn golygu y bydd yn rhaid cael cytundeb ar ffocws / gostyngiad mewn blaenoriaethau, gyda llai o gyfarfodydd mewn rhai meysydd, llai o arian i gefnogi gweithwyr partneriaeth.
 - Mae rhai grantiau sy'n galluogi awdurdodau lleol i ddarparu swyddogaethau sy'n cefnogi partneriaethau wedi eu lleihau.
 - Gostyngiadau sylweddol o ran yr arian sydd ar gael i bartneriaid statudol e.e. Yr Heddlu a'r Bwrdd Iechyd, yn effeithio ar eu gallu i gefnogi'r nifer presennol o bartneriaethau sy'n bodoli yn lleol.
- Y nod ar gyfer yr adolygiad oedd:
 - Darparu gwell cydweithio rhwng yr holl asiantaethau a mynediad rhwyddach at amrywiaeth ehangach o arbenigedd drwy leihau cymhlethdodau a darnio.
 - Gosod cyfeiriad ar gyfer newidiadau fydd yn cael eu gwneud i strwythur presennol partneriaethau yng Ngogledd Cymru.
 - Gwneud argymhellion am ffyrdd y gellir gwneud partneriaethau yn fwy effeithiol, effeithlon ac i ganolbwyntio mwy ar y canlyniad.

Trefniadau i sicrhau rheoli ariannol digonol ac effeithiol

- Mae Rheolau Gweithdrefn Ariannol yn rhan o gyfansoddiad Cyngor Gwynedd ac yn gosod y fframwaith ar gyfer rheoli materion ariannol y Cyngor. Adolygwyd y rheolau ym mis Mai 2009.
- Dyletswydd Bwrdd y Cyngor, yn amodol ar unrhyw gyfarwyddyd a gaiff o bryd i'w gilydd gan y Cyngor, yw trefnu, goruchwyllo a rheoli holl arian a chyfrifon y Cyngor a'i holl adrannau, a chydgyssylltu'r trefniadau ariannol a chyfrifo.
- Dyletswydd y Pwyllgor Archwilio yw monitro ac adolygu cyfrifon a rheolaeth ariannol y Cyngor a'i holl wasanaethau ynglyn â phriodoldeb ariannol drwy adolygu gweithdrefnau cyllidol, hybu rheolaeth fewnol a datblygu diwylliant sydd yn milwrio yn erbyn twyll.
- Dyletswydd y Prif Bwyllgor Craffu yw monitro ac adolygu cyfrifon a rheolaeth ariannol y Cyngor a'i holl adrannau o ran adolygu penderfyniadau Bwrdd y Cyngor, datblygu polisiau perthnasol, monitro sefyllfa ariannol y Cyngor a hybu gwerth am arian.
- Y Pennaeth Cyllid yw'r swyddog sydd â chyfrifoldeb tros weinyddu materion ariannol yn ôl gofynion Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

- Yn ogystal â'r cyfrifoldeb tan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae gan y Pennaeth Cyllid ddyletswyddau statudol mewn perthynas â gweinyddiaeth ariannol a stiwardiaeth y Cyngor. Ni ellir diystyru'r cyfrifoldeb statudol hwn. Mae'r dyletswyddau statudol ychwanegol hyn yn deillio o'r canlynol:
 - Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988
 - Deddf Tai a Llywodraeth Leol 1989
 - Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005
 - Deddf Llywodraeth Leol 2003
- Mae'r Pennaeth Cyllid yn gyfrifol am:
 - Weinyddiad priodol materion ariannol y Cyngor;
 - Gosod safonau rheoli ariannol a monitro cydsyniad â hwynt;
 - Adrodd ar gryfder amcangyfrifon ac ar ddigonolrwydd y cronfeydd ariannol bwriadedig a gosodedig er mwyn llunio cyfrifiadau cyllidebol.
- Yn unol ag Adran 114 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 bydd y Pennaeth Cyllid yn adrodd i'r Cyngor Llawn, i Fwrdd y Cyngor ac i'r archwiliwr allanol os yw o'r farn bod y Cyngor, pwyllgor o'r Cyngor, cydbwyllgor â chynrychiolaeth y Cyngor arno, neu un o'i swyddogion:
 - Wedi gwneud, neu ar fin gwneud, penderfyniad sy'n arwain at wariant anghyfreithlon;
 - Wedi gwneud, neu ar fin gwneud, rhywbeth anghyfreithlon sydd wedi neu a fyddai'n creu colled neu ddiffygiant i'r Cyngor;
 - Ar fin gwneud cofnod anghyfreithlon yng nghyfrifon y Cyngor.
- Ni chyflwynir unrhyw adroddiad i Fwrdd y Cyngor (nac i'r Cyngor Llawn, Pwyllgor Adnoddau Dynol, neu bwyllgor arall gyda phwerau gweithredol) heb yn gyntaf ei gyflwyno i'r Pennaeth Cyllid am ei sylwadau ar briodoldeb ariannol neu oblygiadau ariannol yr argymhellion. Ni chaiff swyddogion nac aelodau roddi gwybodaeth ariannol i gyrff ac unigolion allanol heb yn gyntaf ymgynghori â'r Pennaeth Cyllid neu reolwr cyllid perthnasol er mwyn sicrhau cywirdeb. Rhaid ymgynghori'n bersonol gyda'r Pennaeth Cyllid pan fo rheolwr cyllid perthnasol yn tybio fod yr wybodaeth yn sensitif o safbwynt masnachol.
- Bydd pob pennaeth adran yn sicrhau y bydd ei adran yn defnyddio egwyddorion pendant ynglyn â gwirio mewnol i fodloni'r Pennaeth Cyllid. Yn benodol:
 - Caiff y dyletswyddau o ddarparu gwybodaeth am symiau sy'n ddyledus i neu gan y Cyngor ac o gyfrifo, gwirio a chofnodi'r symiau hyn eu gwahanu cymaint ag y bo modd oddi wrth y ddyletswydd o'u casglu neu eu gwario,
 - Ni fydd y swyddogion sydd â'r ddyletswydd o archwilio a gwirio cyfrifon trafodion ariannol yn cymryd rhan eu hunain mewn unrhyw un o'r trafodion hynny.

Rhan 4: EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae cyfrifoldeb ar Gyngor Gwynedd i gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd o system rheolaeth fewnol yn cael ei hysbysu drwy waith archwilio mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn yr awdurdod, sy'n gyfrifol am ddatblygiad a'r gynhaliath o'r amgylchedd llywodraethu, ac yn ogystal drwy sylwadau gan archwilwyr allanol, asiantaethau ac arolygwyr eraill.

Cynhaliwyd yr adolygiad a ddisgrifir yma trwy adolygu darganfyddiadau archwilwyr mewnol ac allanol y Cyngor, a thrwy drafodaeth gyda swyddogion allweddol o fewn yr awdurdod. Mae'r broses sydd wedi ei ddefnyddio i gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol yn cynnwys:

- Mae Fframwaith Partneriaeth Gwynedd ar y Cyd, y Strategaeth Gymunedol, yn destun ymgynghori ar hyn o bryd.
- Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Cynllun Tair Blynedd newydd, am y cyfnod 2011-14, bu ymgynghori mewn nifer o leoliadau drwy'r sir i geisio barn grwpiau o'r cyhoedd ar y materion sydd angen sylw yn y blynyddoedd nesaf. Yn ogystal, cafwyd tri gweithdy ar gyfer yr holl gynghorwyr ac uwch swyddogion a arweiniodd, yn eu tro, at:
 - restr o brif faterion a chanlyniadau a gafodd eu cyflwyno a'u cytuno gan Fwrdd y Cyngor
 - gasgliadau a negeseuon allweddol er ystyriaeth y Byrddau Rhaglen wrth iddynt baratoi cynlluniau manwl
 - farn, sylwadau a mewnbwn ar waith y Byrddau Rhaglen cyn cwblhau'r cynlluniau manwl.
- Yn ei adolygiad o Gynllun Gwella'r Cyngor, adroddwyd gan Archwiliwr Apwyntiedig Swyddfa Archwilio Cymru fod Cynllun Gwella 2010-11 y Cyngor yn bodloni gofynion statudol ac yn rhoi darlun cytbwys o'i berfformiad yn 2009-2010. Fodd bynnag, nododd yr Archwiliwr y dylai'r Cyngor ystyried ailstrwythuro'r cynllun fel ei bod yn haws i'r darlennydd ddeall perfformiad y Cyngor.
- Paratowyd y Cynllun Tair Blynedd newydd trwy gychwyn gydag asesiad o'r prif yrwyr sydd yn dylanwadu ar y sir nawr ac sy'n debygol o wneud hynny yn y blynyddoedd nesaf. Cyflawnwyd hwn ar y cyd â phartneriaid o dan faner y Strategaeth Gymunedol a phartneriaethau allweddol arall o fewn y sir.
- Yn unol â'r ymrwymiad yn y Cynllun Tair Blynedd, bydd y Cyngor yn cynnal adolygiad blynyddol ffurfiol i ystyried os oes angen newid cyfeiriad mewn rhyw ffordd.
- Er mwyn cryfhau ymhellach y trefniadau llywodraethu a gweithredu, mae prif faterion y Cynllun Tair Blynedd yn eistedd o dan 6 Rhaglen Strategol fel a ganlyn:
 - Trawsffurfio'r Cyngor
 - Economi ac Adfywio
 - Amgylchedd ac Isadeiledd
 - Plant a Phobl Ifanc
 - Arbedion
 - Gofal

Mae gan bob un o'r Rhaglenni Strategol hyn Fwrdd Rhaglen er mwyn sicrhau gweithrediad, gyda trefniadau cadarn yn eu lle ar gyfer pob un o'r prif faterion, yn adrodd i'r Bwrdd Rhaglen. Mae aelodau yn ogystal â swyddogion yn eistedd ar y Byrddau Rhaglen er mwyn cryfhau'r trefniadau democrataidd. Yn ogystal â'r Byrddau Rhaglen, mae 3 Prosiect Strategol sydd y tu allan i'r drefn bwrdd rhaglen sef Gwella Iechyd, Iaith a Cynllun Datblygu Lleol.

- Yn Chwefror 2011, cyflwynwyd Strategaeth Ariannol Pedair Blynedd i'r Cyngor, am y cyfnod 2011/12 hyd at 2014/15. Yn ei adroddiad, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: "Tra ymddengys ein bod wedi medru darganfod yr arbedion yr ydym eu hangen am 2011/12 a 2012/13, yn sicr mae'r gwaith rhagweithiol a wnaed gan y cyngor wedi talu ar ei ganfed, ond rhaid gwyllo rhag tynnu'r ysgwydd oddi ar y maen gan fod angen sicrhau nawr fod y cynlluniau fydd yn cael eu mabwysiadu yn cael eu gweithredu i wireddu'r targedau arbedion".

- Ym mis Medi 2010, lluniodd yr Archwilydd Cyffredinol Asesiad Corfforaethol ar y ffordd y caiff y Cyngor ei drefnu a'i reoli. Casgliad cyffredinol yr adroddiad hwnnw oedd bod arweinwyr y Cyngor yn ymdrin a'r angen am newid, ond nid yw rhai o'r blociau adeiladu allweddol wedi'u sefydlu'n ddigon da eto i sicrhau gwelliant parhaus.

Mae'r Archwiliwr yn esbonio, "Hynny yw, mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen iddo newid y ffordd y mae'n rheoli rhai o'i wasanaethau ac wedi rhoi cynlluniau ar waith i wneud hynny. Mae'r Cyngor eisoes wedi cymryd camau mewn meysydd megis aildrefnu ysgolion a throsglwyddo stoc tai. Cafwyd, hefyd bod y Cyngor yn bwrw golwg feiriadol dros lawer o'i drefniadau ei hun, yn ogystal ag ymateb i adroddiadau a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ac arolygiaethau eraill. Drwy wneud hynny, mae'r ymdrechion i newid wedi cyflymu, ond mae'n rhy gynnar i ddatgan pa un a fydd y cynlluniau hyn yn cael yr effaith ddymunol".

- Mae'r Cod Llywodraethu Lleol yn gosod sefyllfa'r Cyngor fel ag y mae heddiw. Mae Hunanasesiad y Cyngor wedi adnabod rhai gwendidau lle bydd angen cynllun gweithredu i'w cyfarch, yn enwedig yn ymwneud a'r egwyddor olaf, sef ymgysylltu. Fel y bydd prosesau'r Cyngor yn datblygu yn y maes hwn, bydd modd ychwanegu at y cod llywodraethu lleol.
- Bwriad y Cod Llywodraethu Lleol ydi crynhoi mewn un ddogfen yr egwyddorion mae'r Cyngor yn eu defnyddio wrth lywodraethu ynghyd a dangos sut mae ei brosesau yn ymarferol yn cyplysu a'r egwyddorion. Mae'r Cyngor yn cydnabod ei fod yn ddogfen sydd angen ei diwygio yn gyson fel mae'r prosesau rheini yn datblygu. Bob blwyddyn mae datganiad llywodraethu corfforaethol yn cael ei gyflwyno a bydd hynny yn gyfle i adolygu'r cod lleol a'i ddiwygio os oes angen.
- Ni fydd unrhyw adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor, Bwrdd y Cyngor, y Pwyllgor Adnoddau Dynol, y Pwyllgor Pensiynau nac, yng nghyswllt materion eiddo unigol, i Bwyllgor Ardal nac i aelod unigol lle bo'r hawl penderfynu gan yr aelod, onid yw, yn gyntaf, wedi'i gyflwyno i'r tri swyddog statudol am sylwadau ar unrhyw fater ynghylch polisi, cyfreithioldeb, priodoldeb ac oblygiadau ariannol unrhyw argymhellion.
- Bydd trefniadau Trosolwg a Chraffu'r Cyngor yn cael ei hadolygu ymhellach yn ystod 2011/12 yn sgil gweithredu Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.
- Er mwyn sicrhau fod y gwerthoedd y Cyngor yn cael eu pwysleisio, cânt eu defnyddio ar waelod gohebiaeth, ar fewnwyd y Cyngor ac ar gyhoeddiadau.
- Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal adolygiad blynyddol o wasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor. Yn ei adolygiad ddiweddaraf daeth yr archwilydd allanol i'r casgliad fod gan Cyngor Gwynedd wasanaeth Archwilio Mewnol effeithiol, sy'n cwrdd yn llawn â 10 o'r 11 safon proffesiynol yn llawn. Roedd yn cwrdd yn rhannol â'r safon "Annibyniaeth" oherwydd dyletswyddau eraill yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg y tu hwnt i Archwilio Mewnol.
- Adroddodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg fod gan Cyngor Gwynedd, yn ei farn ef, fframwaith gadarn o reolaeth fewnol er mwyn cynnig sicrwydd rhesymol parthed cyflawniad effeithiol ac effeithlon o amcanion y Cyngor, gan fod y camau a gymerwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol i sefydlu a cryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau fod argymhellion i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn foddhaol.
- Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd o'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r Pwyllgor yn cadw goruchwyliaeth fanwl ar lwyddiant archwilio mewnol i gwblhau ei gynllun archwilio ac i gynnal archwiliadau dilyniant mewn meysydd ble adnabuwyd methiant mewn rheolaeth fewnol. Mae'r Pwyllgor yn galw rheolwyr a Phenaeithiaid yn atebol pan fu methiant i weithredu gwelliannau disgwylidig i reolaethau mewnol.
- Cynhaliodd Archwilio Mewnol adolygiad yn ystod 2010 o ymwybyddiaeth o'r Polisi Canu'r Gloch ar draws y Cyngor. Prif gasgliad yr adolygiad oedd bod cynnydd sylweddol wedi bod yn ymwybyddiaeth gweithwyr y Cyngor o'r Polisi Canu'r Gloch ers yr archwiliad cyffelyb diwethaf yn 2003. Er hyn, wrth ddadansoddi canlyniadau'r holiadur, gwelwyd mai dim ond 25.5% o weithwyr a fynegodd eu bod wedi derbyn cerdyn cyswllt Canu'r Gloch. Fodd bynnag, gall y gwir ganran fod yn uwch oherwydd bu i'r cardiau gael eu dosbarthu i'r gweithwyr peth amser yn ôl erbyn hyn. Gwelwyd mai'r dull gorau o hyrwyddo'r polisi ymysg gweithwyr y Cyngor oedd drwy'r fewnwyd. Awgrymwyd sawl gwaith bod y polisi llawer rhy anodd ei ddarganfod arno.
- Ar 1 Mawrth 2011, mabwysiadwyd y canlynol gan y Cyngor i fod yn rhan o'r Strategaeth Hyfforddi a Datblygu Aelodau:

1. Disgrifiad o Rôl a Chyfrifoldebau ar gyfer Cadeiryddion ac Is- Gadeiryddion

2. Disgrifiad o Rôl a Chyfrifoldebau ar gyfer Aelodau Craffu
 3. Cymwyseddau ac Ymddygiadau ar gyfer Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion
 4. Cymwyseddau ac Ymddygiadau ar gyfer Aelodau Craffu
- Bu'r prosiect i drosglwyddo stoc tai y Cyngor i Gartrefi Cymunedol Gwynedd yn llwyddiant, gyda'r trosglwyddiad yn digwydd ar 12 Ebrill 2010.
 - Yn dilyn adolygiad o effeithiolrwydd partneriaethau Gogledd Cymru, dan arweiniad Heddlu Gogledd Cymru, penderfyniad Bwrdd y Cyngor oedd:
 1. Cefnogi'r symudiad i batrwm dwy sir ar gyfer y partneriaethau Strategaeth Gymunedol a'r Byrddau Gwasanaethau Lleol, Iechyd Gofal a Lles a Plant a Phobl Ifainc ond nodi y dylid adolygu effeithlonrwydd y trefniadau ymhén blwyddyn.
 2. Cydweithio â datblygu cynigion ar gyfer patrwm dwy sir ar gyfer y partneriaethau uchod ac y dylai'r cynigion hynny gael eu craffu ymhellach cyn cael eu cyflwyno i Fwrdd y Cyngor.
 3. Cefnogi'r symudiad i osod cyfeiriad strategol ar gyfer meysydd Diogelwch Cymunedol a Chyfiawnder Ieuenctid ar draws y Gogledd ar yr amod bod y trefniadau hynny yn caniatáu sylw digonol i'r blaenoriaethu mwy lleol sydd yn codi yn y meysydd hynny oherwydd y gwahaniaethau rhwng gwahanol ardaloedd y Gogledd.
 4. Pwysleisio pwysigrwydd diogelu statws yr iaith Gymraeg mewn unrhyw drafodion partneriaeth o dan y patrwm newydd.
 5. Datgan na ddylid gwneud unrhyw newidiadau pellach i strwythurau rhanbarthol ar gyfer partneriaethau nes y bydd adolygiad o'r trefniadau isranbarthol newydd wedi ei ystyried.
 - Caewyd cyfanswm o 39 adolygiad gan yr Ombwdsman yn dilyn honiadau o gamweinyddu yn ystod 2010/11. Cyhaliwyd 4 o'r honiadau hyn.

Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, ac mae cynllun i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau gwelliant parhaus yn ei le.

Rhan 5: **MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL**

Mae'r prosesau a ddisgrifir mewn rhannau blaenorol o'r datganiad hwn yn disgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i adnabod y materion llywodraethu arwyddocaol sydd angen sylw.

- Mae nifer o gyrff allanol yn cynnal adolygiadau ar drefniadau'r Cyngor. Bydd yr adrannau perthnasol yn rhoi sylw i'r materion sydd wedi eu hadnabod.
- Mae gweithdrefnau Rheoli Rhaglen wedi eu cyflwyno er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol y camau sydd angen eu cyflawni er mwyn cwblhau'r tasgau a adnabuwyd yn y Cynllun Tair Blynedd, yn ogystal â chamau gweithredu allweddol eraill. O'r herwydd, mae gweithrediad llwyddiannus y gyfundrefn Rheoli Rhaglen yn fater llywodraethu arwyddocaol ynddo'i hun.
- Mae prif faterion y Cynllun Tair Blynedd diwygiedig, fydd yn derbyn sylw yn ystod 2010/11 yn unol â'r weithdrefn Rheoli Rhaglen, yn cynnwys y materion llywodraethu canlynol:

RHAGLEN GOFAL

Prosiect Trawsnewid Trefniadau Rheoli Busnes

- **Comisiynu** - Eglurder i fudd-ddeiliaid ar fwriadau comisiynu y 5 mlynedd nesaf ym maes Pobl Hŷn ac Anableddau Dysgu, fydd yn cyd-fynd â gweledigaeth yr Adran, capasiti cyllidol ac anghenion defnyddwyr
- **Rheoli Perfformiad** - Swyddogion yr Adran, i lawr i lefel Arweinydd Tîm / Uwch Ymarferydd, wedi cymryd rhan lawn mewn hunan arfarniad gan adnabod lle mae angen cynllunio ar gyfer gwella profiadau a chanlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth. Ymarfer Canlyniadau'n Cyfrif wedi ei gwblhau ym mhob maes a adnabuwyd yn ystod yr hunan arfarnu fel maes lle roedd angen 'troi'r gornel' o ran perfformiad, er mwyn gwella ansawdd perfformiad
- **Adolygu systemau ariannol** - Adnoddau dynol wedi eu hariannu a'u canfod i fewnosod modiwlau cyllid RAISE fydd, o'i wireddu, yn rhoi'r budd o sicrhau gwell priodoldeb ariannol, cynyddu effeithlonrwydd prosesau a rhoi gwell profiad i ddefnyddwyr gan y bydd gwybodaeth bersonol a gwybodaeth ariannol yn yr un system
- **Llywodraethu Gwybodaeth** - Trefn ffeilio a storio gwybodaeth adrannol yn weithredol, fydd yn golygu bod staff yn medru gweithio'n fwy effeithiol a bod gwybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaeth a budd-ddeiliaid eraill yn fwy diogel.

RHAGLEN ADFYWIO A'R ECONOMI

Prosiect Cadw'r Budd yn Lleol

- Byddwn wedi adnabod y potensial llawn o ddefnydd cymalau cymdeithasol o fewn cytundebau
- Bydd y Gronfa ar gyfer benthyciadau wedi ei sefydlu ac ar gael i gefnogi busnesau Gwynedd

RHAGLEN PLANT A PHOBL IFANC

Prosiect Torri'r Cylch (Cefnogi Teuluoedd)

- Eglurder yn ei le ynglyn â'r gost i'r sector gyhoeddus o gefnogi teuluoedd bregus.
- Modelau yn eu lle ar gyfer darparu cefnogaeth integredig i deuluoedd ar draws y continwwm o angen.

Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc Anabl a Gwael

- Cytundeb ffurfiol yn ei le rhwng y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynglyn â'r patrwm newydd o ddarparu gwasanaeth integredig i blant a phobl ifanc anabl a gwael a'u teuluoedd.
- Trawsnewid darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16: Eglurder yn ei le ynglyn â chynladwyedd ariannol y model sy'n cael ei ffafrio ar hyn o bryd.

RHAGLEN TRAWSFFURFIO

Prosiect Ymgysylltu

- Cynnydd yn ymwybyddiaeth ymysg swyddogion allweddol ynglyn â gweithgareddau ymgysylltu (gan gynnwys cyfundrefn reolaethol briodol)
- Barn Panel Trigolion wedi ei sicrhau ar nifer o brif faterion y Cyngor

Prosiect Gofal Cwsmer

- Cyfeiriad wedi ei osod ar gyfer gwella Gofal Cwsmer, drwy ailddiffinio'r strategaeth ac adnabod gwasanaeth penodol ar gyfer gwaith dwys. Cyfres o fesurau wedi eu mabwysiadu er mwyn dangos ansawdd gwasanaethau'r Cyngor i'r cwsmer.

Prosiect Y Gweithlu

- Gwell ymwybyddiaeth o'r gwaith sydd angen ei wneud er mwyn gwella cyfathrebu mewnol
- Datblygu cyfundrefn "Arweinyddiaeth Weladwy", gydag Arweinyddiaeth yn trafod materion wyneb yn wyneb gyda staff

Prosiect Trefniadau Democrataidd

- Cytundeb y Cyngor Llawn ynghylch cynigion terfynol am fodel sydd i'w gyflwyno i'r Cynulliad i newid i drefniadau gweithredol o lywodraethu (h.y. Cabinet).
- Datblygu a rhoi ar waith gynlluniau i ddatblygu diwylliant, aelodau a threfniadau'r Cyngor newydd, gyda darpar ymgeiswyr yn ymwybodol o'r newidiadau.
- Datblygu rôl amgen ar gyfer cynghorwyr fel cynrychiolwyr lleol – trefn llywodraethu wedi ei sefydlu sydd yn dal y cabinet i gyfrif.

Prosiect Comisiynu gyda Ffocws ar Ganlyniadau

- Datblygu'r gyfundrefn Cynllun Tair Blynedd i sicrhau bod y prif brosiectau'n cael eu comisiynu ar sail canlyniadau.

RHAGLEN ARBEDION

Prosiect Targed effeithlonrwydd gwasanaethau

- Pecyn o gynlluniau effeithlonrwydd gwasanaethau ar gyfer y blynyddoedd dilynol wedi'i fabwysiadu gan y Cyngor.

Prosiect effeithlonrwydd corfforaethol

- Achosion busnes cydweithio rhanbarthol wedi'u cytuno ac wedi eu derbyn gan y Cyngor.

Prosiect Gwireddu Arbedion

- Cyflawni cyfanswm arbedion gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn o £5.0m.

Prosiect: Cytundeb Canlyniadau

- Cytundeb gan Lywodraeth y Cynulliad bod y Cyngor wedi dangos ei fod wedi cyflawni'r cynnydd a fwriadwyd, a chadarnhad y byddwn yn derbyn 100% o'r swm posibl (£1.3m).

Rhan 6: BARN

Rydym yn bwriadau cymryd camau i ddelio gyda'r materion uchod yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon bydd y camau hyn yn delio gyda'r angen i wella adnabuwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

HARRY THOMAS
PRIF WEITHREDWR CYNGOR GWYNEDD

Cyng. DYFED WYN EDWARDS
ARWEINYDD CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD

DYDDIAD